

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Ebrill 2012

Rhif 421

50c

Dyffryn Ogwen yn dweud digon yw digon

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r grŵp cymunedol Balchder Bro Ogwen a thrigolion, ysgolion a busnesau lleol i geisio rhwystro perchnogion anghyfrifol rhag gadael i'w cŵn faeddu manau cyhoeddus yn ardal Bethesda.

Mae hyn yn dilyn pryderon fod lleiafrif o berchnogion nad ydyn nhw byth yn glanhau ar ôl eu cŵn, er gwaethaf cynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd sy'n cynnig bagiau baw cŵn i berchnogion. Codwyd pryderon ynghylch perchnogion yn methu â glanhau ar ôl eu cwn ar llwybrau ym Mhant Dreiniog, Caiff y llwybrau eu defnyddio'n helaeth gan blant a theuluoedd.

Cafodd y llwybrau eu gosod a'u gwella yma ychydig flynyddoedd yn ôl yn sgil y Fenter Llwybrau Diogel i'r Ysgol, a bu Cyngor Gwynedd a Balchder Bro Ogwen yn plannu coed a bylbiau blodau yno er mwyn helpu i adfer apêl naturiol y safle. Maen nhw hefyd wedi trefnu digwyddiadau codi sbwriel mewn amryw o leoedd.

Meddai un o'r trigolion lleol, Chris Humphreys: "Mae'n bryder parhaus i ni fel rhieni y bydd plant yn dod i gysylltiad â baw cŵn.

Mae Pant Dreiniog erbyn hyn yn lle chwarae naturiol gwych i blant ond mae rhai perchnogion cŵn yn gadael i'w cŵn wneud eu busnes lle bynnag maen nhw eisio."

Mae Sioned H Thomas, pennaeth Ysgol Abercaseg, hefyd yn bryderus fod perchnogion yn gadael i'w cŵn faeddu gerllaw'r ysgol ac nad ydyn nhw'n glanhau ar eu hôl.

Parhad ar dudalen 18

Ymdrech Fawr Balchder Bro Ogwen



Mae grŵp cymunedol Balchder Bro Ogwen wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn gwella safon eu hamgylchedd.

Ar Fawrth 8fed cyfarfu 10 aelod o'r grŵp yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon cyn gwasgaru gyda'u gefelau codi i'r ardal gyfagos. Aethpwyd ar hyd llwybr cyhoeddus ger y ganolfan ynghyd â chae chwarae Cae Gas. Fe gasglwyd 30 bag o sbwriel yn ystod y bore yn unig a chafwyd hefyd nifer o eitemau eraill, megis teiars car.

Ac eto ar Fawrth 20fed aeth 6 aelod allan i gasglu sbwriel ar lannau'r Afon Caseg, ger Cae Chwarae Abercaseg, a stad Abercaseg. Casglwyd oddeutu 20-25 bag sbwriel, ond adroddwyd bod llawer o waith i'w wneud eto. Gobeithir trefnu dyddiad arall y mis nesaf i geisio gorffen y gwaith tacluso.

Parhad ar dudalen 3

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts ☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn ☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts ☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn ☎ 600274
dewision@btinternet.com

Fiona Cadwaladr Owen ☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees ☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Emlyn Evans ☎ 600501
emlynevans@live.co.uk

Neville Hughes ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan ☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net

Dafydd Fôn Williams ☎ 601583
dafydd@gerlison.wanadoo.co.uk

Walter W Williams ☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:

André Lomozik, Zakopane,
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

Golygydd y Mis

Golygydd y mis hwn oedd Derfel Roberts.
Golygydd mis Mai fydd:
Dewi Llewelyn Siôn, Pencraig, 42 Erw
Las, Bethesda, LL57 3NN (01248 600274)
dewision@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 2
Mai, os gwelwch yn dda. Plygu nos lau,
17 Mai yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar gasét bob mis,
cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Mis Ebrill

- 20 Bingo. Canolfan Glasinfryn am 7.30.
At elusen "Sunny Day" (i godi arian
at gael cadair arbennig i ferch lleol).
- 20 Cyngerdd gan Glain Dafydd yn
Eglwys Sant Cedol, Pentir, am 7.00
- 21 Bore Coffi at Apêl Eist. Urdd Eryri
2012. Neuadd Goffa Mynydd
Llandygai 10.30 – 12.00
- 21 Bore Coffi Ymchwil Canser. Neuadd
Ogwen. 10.00 -12.00
- 22 Gweithdy Gwerin Clera. Amgueddfa
Lechi Llanberis. 1.00 – 4.30.
- 23 Te Bach. Ffestri Carmel Llanllechid.
2.30 – 4.00
- 24 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00
- 26 Merched y Wawr Bethesda. Brethyn
Cartref. Cefnfaes am 7.00
- 28 Bore Coffi Capel Jerusalem. Neuadd
Ogwen. 10.00 – 12.00

Mis Mai

- 01 Te Gwanwyn. Canolfan Tregarth.
2.00 – 4.00 . At Eglwys y Santes
Fair.
- 05 Bore Coffi Gorffwysfan. Neuadd
Ogwen. 10.00 – 12.00
- 07 Merched y Wawr Tregarth. "Y Bardd
Cocos". Ffestri Shiloh am 7.00
- 12 Bore Coffi Cymorth Cristnogol.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 12 Marchnad Cynnyrch Lleol.
Llys Dafydd. 10.00 – 2.00
- 19 Bore Coffi Ysgol Sul Jerusalem.
Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 20 Cymanfa Ganu Annibynwyr Bangor a
Bethesda. Capel Bethlehem Talybont
am 5.30.
- 23 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.30.
- 26 Bore Coffi Sefydliad y Merched
Cameddi. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00
- 29 Plaid Cymru Cangen Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00

Mis Mehefin

- 02 Bore Coffi Gŵyl Afon Ogwen.
Neuadd Ogwen. 10.00 -12.00
- 09 Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen.
Caeau Dôl Ddafydd, Bethesda.

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Mis Ebrill

£30.00 (63)
Awen Gwyn, Maes yr Hedydd, Tregarth

£20.00 (152)
Jean Ogwen Jones, Tegfan, 6 Stad Coetmor.

£10.00 (192)
Carys Dafydd, Llys Llywelyn, Braichmelyn

£5.00 (22)
Don Hughes, Ripponden, Halifax.

Rhoddion i'r Llais

- £5.00** Karen Williams, Hen Barc, Bethesda
- £7.00** Gwen Gruffydd, Aberystwyth
- £7.00** Vera Davies, Great Dunmow
- £100** Cyngor Cymuned Llanllechid
- £20.00** Er cof am Desmond Davies, 30
Bryntirion, Bethesda, a fu farw ar 5
Mai 1982 oddi wrth Nen, Michael,
Martin, Peter a'r teulu.
- £20.00** Er cof annwyl am Huw Parry Jones,
Dolgarrog (Mynydd Llandygai gynt)
- £10.00** Er cof am Cyril Jones, 6 Bron y Waun,
Rhiwlas gan Mrs Myra Jones

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain
£27 Ewrop
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com

Cydnabyddir
Cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru



Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,
Gorffwysfa, Sling, Tregarth
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213
post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
☎ 01248 601669

Hysbysebwrch yn Llais Ogwan

Cysylltwch â Neville Hughes

01248 600853

nev_hughes@btinternet.com

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

Paned a Sgwrs
Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

Peint a Sgwrs
Douglas Arms Bethesda
20.00 – 21.00
Trydydd Nos Lun pob mis

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ddefnyddio ychydig ofod, os gwelwch yn dda i ddatgan na fyddaf yn ymgeisydd yn yr etholiad am sedd ar Gyngor Cymuned Pentir ym mis Mai.

Bûm yn aelod annibynnol dros ward Glasinfryn ar y Cyngor am gyfnod di-dor o 38 mlynedd ac yn ystod y cyfnod hir yma cefais yr anrhydedd o fod yn Gadeirydd y Cyngor ddwywaith.

Hoffwn ddiolch i drigolion ardal Glasinfryn a Chaerhun am eu cefnogaeth ac am y fraint o gael eu cynrychioli ar y Cyngor ar hyd y blynyddoedd.

**Yn ddiffuant,
James Griffiths**

**24 Heol Serth,
Caerffili,
CF83 2AN.**

Chwilota am berthnasau

Annwyl Olygydd,

Apêl yw hon am i unrhyw aelod o deulu Daniel David Roberts sy'n dal i fyw yn ardal Bethesda ddod i gysylltiad gan ein bod yn ceisio cwblhau coeden deulu fy nhaid sef y gŵr a enwir uchod. Mae'n debyg i Daniel David Roberts symud o Fethesda i Abertridwr, ger Caerffili oddeutu'r flwyddyn 1912 ac yno y ganed fy nhad a'i frodyr a'i chwiorydd.

Yn ôl Cyfrifiad 1891 roedd Daniel David Roberts (8 oed) yn byw yn 3 Stryd Treflys, Gerlan gyda'i dad Edward a'i fam Elizabeth ynghyd â'i frodyr William, Hugh, Edward Samuel a'i chwaer Elizabeth Catherine. Roedden nhw wedi symud i Gerlan o Ffordd Carneddi. Roedd y rhieni wedi bod yn byw yn Llidiart y Gwenyn cyn hynny. Yn ystod Cyfrifiad 1871 roedden nhw'n byw un ai yn Rhif 70 neu rif 72 Ffordd Carneddi. Symudodd y teulu i'r Gerlan rywdro rhwng 1871 ac 1881.

Os oes rhywun o'r teulu ar ôl byddwn yn hynod o falch o glywed gennych a gallwch ysgrifennu ataf i'r cyfeiriad uchod neu fy ffonio ar 02920 866899 neu fy ebostio ar un o'r ddau gyfeiriad ebost canlynol: - kegreen@btinternet.com neu morwyn@btinternet.com

**Yr eiddoch yn ddisgwyllgar,
Morwyn (Roberts gynt)
a Ken Green.**

Plant Alder Hay

Mae cynhyrchydd teledu o Griecieth yn apelio am deuluoedd i gymryd rhan mewn cyfres newydd sbon i'w darlledu ddiwedd y flwyddyn ar S4C. Enw'r gyfres yw 'Plant Alder Hay' ac fel mae'r enw'n awgrymu, dilyn hynt a helynt plant sy'n gorfod mynychu'r ysbty arbennig hwn yn Lerpwl yw nod y rhaglen. Sioned Morys, gwraig y bardd Twm Morys, gafodd y syniad wedi i'w trydydd plentyn, Begw Elin, orfod cael llawdriniaeth go hegar yn Alder Hay, a hynny ar ei diwrnod cyntaf un yn y byd. 'Ychydig oriau ar ôl cael ei geni, roedd Begw ar ei ffordd i Lerpwl am lawdriniaeth a barodd yn y pen draw am 10 awr. Buom am wythnos wedyn yn yr Adran Gofal Dwys, cyn cael ein trosglwyddo i'r ward babis. Mae Begw rwan yn hogan fach tair a hanner oed, ac er na fu'r tair blynydd ddiwethaf yn hawdd, does dim diwrnod yn mynd heibio nad ydwyf yn diolch i'r Nefoedd fod y fath ysbty yn bod'.

Cyn geni Begw, mae'n wir dweud nad oedd gan Sioned amcan am yr hyn roedd Alder Hay yn ei wneud, nac ychwaith am yr effaith y mae cael plentyn sydd angen llawdriniaeth yno, yn ei chael ar y teulu. 'Pan mae Alder Hay yn galw, rhaid gollwng pob dim a mynd. Oherwydd bod y lle mor bell o adra, rhaid oedd aros dros nos. Roedd yn rhaid i Mam ddod i warchod Dyddgu a Tudwal, oedd yn 5 a 3 ar y pryd. 'Dwn i ddim beth faswn ni wedi ei wneud hebdi!'.

Mae pethau wedi tawelu erbyn hyn. Mae cyflwr Begw - sef Tracheal Oesophageal Fistula - yn golygu fod ei phibell wynt yn wan, ac mae'n dal i gael pyliau o anwyd drwg. Ond dim byd tebyg i'r hyn oedd yn digwydd yn y flwyddyn gyntaf pan oedd Begw yn tueddu i stopio anadlu yn gyfan gwbl! 'Fe fu'n rhaid i Twm a minnau roi 'cusan fywyd' i Begw sawl tro. Erbyn heddiw, fedra'i ddim coelio ein bod wedi gorfod gwneud y fath beth. Ond mi wnaethom, ac rydan ni wedi dod trwyddi'.

Yr amcan pennaf wrth wneud y gyfres ydi codi ymwybyddiaeth am fodolaeth Alder Hay, a helpu i bobol ddeall yr hyn y mae teuluoedd sy'n mynychu'r lle yn gorfod ymdopi ag o. 'Y peth cyntaf rydach chi eisiau ei wneud ar ôl dod adref ydi talu'n ôl mewn rhyw ffordd. Mae llawer yn cynnal nosweithiau codi pres, Y ffordd hawsa' i mi oedd gwneud rhaglenni radio. Mi wnes i ddwy raglen ar gyfer Radio Cymru, ac un i Radio Wales, a rhoi elw'r rhaglenni i Ronald McDonald House, y llety sy'n rhoi stafell am ddim i bobol fel fi, pan fydd plant bach sâl gennym yn yr ysbty. Hon yw'r gyfres gyntaf i mi ei gwneud ar y teledu. Mi fydd elw'r rhaglenni yma hefyd yn mynd i Lerpwl.'

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn cymryd rhan, byddwchystal â chysylltu â Sioned yn Teledu Chwarel ar 01766 523 522, neu 07712531439. Diolch!

Balchder Bro - o'r dudalen flaen

Meddai'r Cynghorydd lleol Ann Williams, a drefnodd y digwyddiadau: 'Diolch o galon i bawb o Balchder Bro a fu wrthi'n gweithio mor ddiflino ar y diwrnodau hel sbwriel diweddar - rydych wedi helpu gwneud Dyffryn Ogwen yn ddaclusach lle, ac yn ardal gwerth ei gweld. Diolch hefyd am gefnogaeth Cyngor Gwynedd a menter Trefi Taclus am gydweithio a darparu offer hel sbwriel.'

Sefydlwyd Balchder Bro Ogwen yn 2009 oherwydd pryder am lefelau uchel o sbwriel yn yr ardal. Yn ogystal â hel sbwriel, mae'r grŵp wedi cyflawni amryw o weithgareddau eraill, gan gynnwys plannu bylbiau gyda phlant ysgol leol, plannu coed gyda Merched y Wawr, gosod basgedi crog ar y stryd fawr a rhannu bagiau baw cŵn yn y gymuned leol.

Os hoffech ymuno â'r grŵp a helpu i wella amgylchedd Dyffryn Ogwen cysylltwch ag Ysgrifennydd Balchder Bro, y Dr Paul Rowlinson ar y rhif (01248) 605365 neu anfonwch e-bost at paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk.

YSGOL 'ARBENNIG'

Annwyl ffrindiau

Mae Ysgol Abercaseg yn ysgol 'arbennig' iawn, dyna union eiriau arolygwyr Estyn wedi iddynt dreulio tri diwrnod yno ddiwedd mis Chwefror.

Er mor anodd yw cadw'r newyddion da i ni ein hunain cyhyd, ni allwn fel Llywodraethwyr gyhoeddi union gynnwys yr adroddiad nes iddo ymddangos ar wefan Estyn ar Ebrill 26ain. Digon yw dweud ein bod yn hynod, hynod falch o'r canlyniad gan bod yr ysgol wedi llwyddo i gyflawni camp na wyddom i unrhyw ysgol gynradd arall yng Nghymru ei chyfawni o'r blaen.

Dymunaf dalu teyrnged arbennig iawn i Bennaeth yr ysgol, Sioned Thomas, am ei harweiniad medrus; i athrawon a chymorthyddion yr ysgol am eu hymroddiad di-ben-draw; i'r holl staff ategol am eu cyfraniad gwerthfawr ac, yn olaf, i'r plant a fu'n serenau drwy'r wythnos fel eu harfer - mae pob un ohonynt wedi cyfrannu at lwyddiant yr ysgol yn yr arolwg.

Byddwn yn cynnal parti am 1.30pm Dydd Iau, 26 Ebrill (sef diwrnod cyhoeddi'r adroddiad) a hoffem estyn gwahoddiad i drigolion yr ardal ddod i'r ysgol i ymuno â ni gan ein bod yn credu bod llwyddiant yr ysgol yn rhywbeth y dylem i gyd ymfalchio ynddo.

Ein braint ni fel rhieni yw cael anfon ein plant i'r ysgol 'arbennig' yma, i gael eu haddysgu gan bobl arbennig, i dderbyn profiadau arbennig a thyfu i fod yn blant arbennig.

Yn gywir

**Fflur Roberts
Cadeirydd Corff
Llywodraethol
Ysgol Abercaseg**

Senghennydd y drychineb a Thrawsfynydd

Annwyl Olygydd,

Derbyniodd y wasg gopi o gerdyn post gan John Roberts, Caerffili. Cerdyn o'r 'Welsh Methodist Chapel', Senghennydd ydi o, ond mae'r neges ar ei gefn yn ingol.

Llwyddwyd i wasgu pryder, galar a thristwch y danchwa yng ngwaith glo'r Universal i'r mymryn o ofod a ganiateir, 'This space for correspondence.' Mae'r cerdyn wedi'i gyfeirio at 'Mrs I. (neu J.) Roberts, No. 5 Arudwy, Station Road, Trawsfynydd, North Wales' ac wedi ei stampio gan y post am 3.15, 15fed Hydref 1913.

Digwyddodd y drychineb dan ddaear am 8.10 bore'r 14eg Hydref:

Anwyl Rienni, Dest air neu ddau atoch gan fawr obeithio eich bod iach yno. Mae yn debyg eich bod wedi clwad am y taniad yn Senghennydd. Mi ydwyf fi yma er ddoe. Nid ydynt wedi dod o hyd i Jack Davies etto. Mae na cannoedd nad ydynt yn medru mynd atynt yno etto. Mae nhw wedi dyfod a Will a Jack Tynllyn fynu yn saf y boreu yma. Mae na llawer oddi yma i lawr etto. Mi gewch y manylion etto. Ydwyf, Bob.

Uwch ben y geiriau 'This space for correspondence', ychwanegwyd: *Mae meibion Ann Jones wedi ei lladd. Mae Edmwnd beth bynnag am Evan.*

Lladdwyd 439 o lowyr yn nhanchwa Senghennydd a bydd canmlwyddiant cofio'r drychineb y flwyddyn nesaf. Bydd Gwasg Carreg Gwalch yn cyhoeddi cyfrol o straeon, toriadau papur newydd, cerddi a lloffion fel hyn i gofio'r hanes a'r dioddefaint. Os oes gan unrhyw un o'ch darllenwyr stori neu loffion, byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthynt.

**Myrddin ap Dafydd,
Gwasg Carreg Gwalch
(01492 642031)
myrddin@carreg-gwalch.com**

Bethesda

Llên Ogwen,
Stryd Fawr, Bethesda
☎ 600431

Siop Kathy
Stryd Fawr, Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☐ ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas,
Bethesda ☐ ☎ 601902

Diolch

Dymuna John a Mair (Siop John), Rhes Buddug, Stryd Fawr, ddiolch o galon i bawb, yn gyfeillion ac yn gwsmeriaid, am eu cefnogaeth ffyddlon i'r teulu ers cychwyn y busnes yn 1950. Diolch i bawb hefyd am eu dymuniadau da wrth iddynt ymddeol.

Pen-blwydd Arbennig

Anfonwn ein cyfarchion a'n dymuniadau da i Mary Jones, Erw Las sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 60 mlwydd oed ar 30 Ebrill.

Diolch

Dymuna Elfed a Helen Jones, Ffordd Ffrydlas ddiolch o waelod calon i deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd, yn gardiau, arian, anrhegion a chyfarchion a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar 17 Mawrth. Diolch yn fawr iawn.

Cartref Newydd

Croeso cynnes iawn i Mrs M. Kimpton i'w chartref newydd ym Maes y Garnedd.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Emma a Trystan Pritchard, Elidir, Allt Penybryn ar enedigaeth mab – Math Llywelyn Rhys ar 8 Mawrth. Brawd bach i Beca Elin ac wŷr i Brian ac Orina Pritchard.

Taid a Nain

Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs B. Pritchard, Rhos y Nant ar yr achlysur hapus o ddod yn nain a thaid unwaith eto a hefyd i nain a taid Bangor, y meddyg a Mrs M. Evans.

Pen-blwyddi

Dathlodd rhai ben-blwyddi arbennig yn ddiweddar. Pen-blwydd hapus iawn i chwi.
70 Mr O. J. Evans, Pant;
65 Mr Vernon Owen, Abercaseg;
80 Mrs Glenys Lloyd Jones, Glanffrydlas.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau ar achlysur hapus o ddatlu eu Priodas Aur i Mr a Mrs Alun Hughes, Maes Coetmor, 10 Mawrth; Mr a Mrs Phil Williams, Penybryn, 31 Mawrth.

Ysbyty

Cofion cynnes atoch i gyd. Da deall eich bod yn gwella'n raddol.

Mrs Nancy Thomas, Rhes Gordon; Mr Bill Lloyd Williams, Ffordd Bangor; Mr Stan Edwards, Coetmor; Mrs Medi Williams, Coetmor; Mr J.K. Hughes, Sŵn y Nant.

Damwain

Cyfarfod â damwain fu hanes Mrs Mary Jones, Rhes Tai Glanogwen. Cofion cynnes atoch.

Profedigaeth

Ar 11 Mawrth ym Mhlas Ogwen bu farw Mr Richard Sandison, Maesygarneidd (Gerlan gynt) yn 81 oed. Priod y ddiweddar Mrs Wendy Sandison, tad caredig Jim, Will, Doreen a Rickie. Bu ei angladd ddydd Gwener, 16 Mawrth gyda gwasanaeth yn amlogfa Bangor, cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

Yn Ysbyty Gwynedd ar 6 Mawrth, wedi cyfnod o flwyddyn yno, bu farw Mr Leslie William Mellor (Les), 17 Rhes Ogwen yn 88 oed. Priod annwyl y ddiweddar Mrs Dilys Mellor, tad hoffus Sheila, Jean a David. Tad yng nghyfraith Graham, taid Sarah, Liz, Hannah, Keith, Ceri, Mike a Catrin, a hen daid i Danny, Jac, Thomas, Lily, Jonah a Nell. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher, 14 Mawrth, gyda gwasanaeth yn amlogfa Bangor, gyda'r ficer y Parchedig Nia Williams yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn eich colled.

Ar 2 Ebrill, yn yr ysbyty, bu farw Mr Albert Williams, 21 Glanffrydlas yn 89 oed. Priod annwyl Mrs Muriel Williams, tad annwyl Helen, Eleri a Dylan, tad yng nghyfraith, taid a hen daid hoffus. Bu gwasanaeth yn amlogfa Bangor fore Mawrth, 10 Ebrill gyda'r Parchedig Geraint S.R. Hughes yn gwasanaethu. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu yn eich profedigaeth o golli priod, tad, taid a hen daid.

Ar 22 Mawrth yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mr Derek Jones, 6B Rhes Penrhyn, yn 47 oed. Tad Emma, Paul a Llifon. Mab annwyl Mrs Joyce Jones a'r diweddar Mr Glyn Jones, a brawd Eurwyn, Linda a Brian a chymar annwyl Jackie. Bu ei angladd ddydd Gwener, 30 Mawrth, gyda gwasanaeth yn amlogfa Bangor gyda'r ficer y Parchedig Nia Williams yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi fel plant, mam, a'r teulu i gyd yn eich profedigaeth.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Dr A. Rees Pritchard, Helen a John, 12 Gerddi Menai, Caernarfon, (Ffordd Bangor gynt) yn eu profedigaeth o golli priod, mam a nain annwyl, sef y ddiweddar Mrs. M. Eluned Pritchard yn 95 oed. Bu gwasanaeth yn amlogfa Bangor ddydd Llun, 19 Mawrth gyda'i gweinidog y Parchedig Ron Williams yn gwasanaethu.

Babi

Llongyfarchiadau i Sasha Moss gynt o Garneddwen ar enedigaeth

merch fach ar 16 Mawrth, o'r enw Medi Lois. Mae'n siŵr fod Nain Wendy, John a'r teulu wedi gwirioni hefo Medi. Llongyfarchiadau hefyd i Mr J. O. Roberts, Penybryn ar ddod yn hen daid.

Diolch

Leslie William Mellor

Dymuna Sheila, Jean, David a'r teulu oll ddatgan eu diolch diffuant am bob neges a cherdyn o gydymdeimlad, a'r rhoddion a dderbyniwyd yn dilyn eu colled drist yn ddiweddar. Diolch i'r meddyg ac yn arbennig i'r staff nyrsio ar wardiau Aran a Dulas yn Ysbyty Gwynedd, lle cafodd ofal cariadus dros y 14 mis diwethaf. Diolch hefyd i'r Parchedig Nia Williams am y gwasanaeth hyfryd ac i Westy'r Douglas am y lluniaeth, a diolchiadau arbennig i Gareth Williams, yr ymgymerwr am ei wasanaeth proffesiynol a gofalus. Diolch yn fawr.

Diolch

Dymuna Nia (Moore gynt) a Dylan Jones, ddiolch yn fawr am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn genedigaeth eu mab, Noa Lloyd Jones, ar 3 Ionawr.

Dymuna Sioned a Huw, 48 Abercaseg, ddiolch o galon am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur geni eu mab bach, Noa Jac ar 2 Mawrth. Mae'n fachgen bach lwcus iawn yn wir.

Codi arian

I ddathlu eu pen-blwydd yn 70 oed eleni penderfynodd Eirwen a Dilwyn, Erw Las, gasglu arian i'w rannu rhwng Ambiwlans Awyr Cymru a Tŷ Gobaith yn hytrach na derbyn anrhegion. Mae £920 wedi ei hel i'w rannu rhwng y

ddau achos. Mae Eirwen a Dilwyn yn hynod o ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael. Diolch yn arbennig i Hogia'r Bonc am ganu a rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim ar noson y parti. Diolch hefyd i Gwyn, Becws Cae Groes am ei rodd o roliau ffres. Diolch i Ann, Hugh a Sioned am drefnu'r noson.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Vernon Owen, 29 Abercaseg, ar ddatlu ei ben-blwydd yn 65 mlwydd oed ar 20 Mawrth.

Cyfarchion Hwyr

Llongyfarchiadau i'r efeilliaid, Freda Adams, 32 Abercaseg, a Fred Morris, 13 Garneddwen ar ddatlu eu pen-blwydd yn 50 mlwydd oed ar 2 Mawrth.

Mae'r ddau yn dymuno diolch i bawb, yn deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ganddynt ar eu pen-blwydd arbennig.

Diolch

Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Mary Davies, 20 Glanogwen, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth. Diolch am bob cerdyn, a hefyd am y rhoddion tuag at Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch i bawb yng nghartref Cerrig yr Afon am fod mor garedig a chymwynasgar, ac i Gareth Williams am drefniadau mor barchus a thrwyadl.

Diolch

Dymuna Joyce, Emma, Paul, Llifon a Jackie ddiolch yn fawr i bawb am bob cydymdeimlad ar achlysur trist colli Derek Jones, Fflat 6B, Rhes Penrhyn, ar 22 Mawrth. Diolch i Gareth Williams, yr ymgymerwr, a'r Ficar, y Parchedig Nia C. Williams am eu gwasanaeth ar ddydd yr angladd.

Diwedd Cyfnod

Dymuna Llais Ogwan ddiolch yn fawr i John a Mair (Siop John) am eu cefnogaeth ffyddlon i'r Llais dros gyfnod maith. Diolch am gasglu'r newyddion a gwerthu'r Llais a'r calendr. Byddwn yn gweld eu colli ar y Stryd Fawr! Ond er eu bod wedi ymddeol o'u gwaith o redeg y siop, mae'n dda deall y byddant yn parhau gyda'u dyletswyddau eraill yn y gymuned, megis llogi Cefnfaes a Neuadd Ogwen. Gallwch eu ffonio ar 600251 (sef hen rif y siop).



Llun o'r siop a dynnwyd yn 1961. O'r chwith mae Mrs Ada Thomas (nain John), Mr. W. Edwin Jones (tad John) a Mrs. Mair Jones (mam John)

Gorffwysfan, Stryd Fawr**Pwyllgor**

Cynhaliwyd pwyllgor fore Llun, 27 Chwefror am 11.15 y bore gyda Mr Eric Jones yn y gadair.

Cafwyd gair o groeso i bawb gan y Cadeirydd ac yn bresennol roedd Joe Evans, Stan Williams, Tom Morgan, Elfed Bullock, Vernon Owen, Jim Amos, Owen John Evans, Eric Jones a Joe Hughes. Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Pritchard, Denis Dart ac Ann Fôn Williams.

Cydymdeimlodd y cadeirydd â sawl teulu a fu mewn profedigaeth ers cyfarfod pwyllgor Medi 2011. Teulu y diweddar Mr Gwynfor Roberts, Y Gerlan; teulu y diweddar Mrs Olwen Williams, Glanogwen, Mr Joe Evans a'r teulu (colli brawd); Mr Dennis Dart a'r teulu (colli brawd). Safodd yr aelodau i ddangos eu parch.

Anfonodd y cadeirydd ein cofion am wellhad buan at: Mrs Glenys Lloyd Jones, Mr Stan Edwards, Mrs Rene Parry, Mrs Ettie Evans a Mr Bert Hughes (brawd Dafydd).

Darllenwyd cofnodion pwyllgor mis Medi, 2011. Materion i'w trafod: 1: Y bore coffi, 5 Mai yn Neuadd Ogwen o 10.00 tan 12.00) 2: Gwibdaith 1 Mai, sef dydd Mawrth i Aberystwyth a chael coffi ar y ffordd, 3: gwibdaith ddirgel, dydd Mawrth, 26 Mehefin.

Diolchwyd i'r trysorydd a'r ysgrifenyddion am eu gwaith. Etholwyd Mr Elfed Bullock yn is-gadeirydd a Mr Vernon Owen yn is-drysorydd. Bydd sawl mater i'w drafod ar wibdaith mis Mai.

Yr Eglwys Unedig**Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes**

Cafwyd rhai dyddiau eithriadol o boeth yn ystod Mawrth cyn i'r oerni ddychwelyd wedyn, ond ar waethaf y tywydd poeth fe fu amryw yn cwyno. Roedd rhyw straen arbennig o gryf o'r annwyd yn mynd o gwmpas ac amryw wedi eu caethiwo.

Anfonwn gofion at bob un ohonoch sydd ddim yn dda a gobeithio na fydd y tywydd braf yn hir cyn dychwelyd a iechyd yn ei sgil. Da clywed bod rhai o'r aelodau sydd wedi bod yn yr ysbyty wedi dod adref ac yn gwella; dymunwn yr un peth i'r rhai sydd yno ar hyn o bryd. Llongyfarchiadau i Jennie Jones am ddod yn hen-nain i Harri Llŷn ac i Eurwen Morris am ddod yn hen-nain i Lili Gwenllian a Dafydd yn hen-daidd. Pob dymuniad da i John a Mair ar eu hymddeoliad. Fe fydd yn chwist heb eu croeso yn y siop.

Cylch Meithrin Cefnfaes**Dydd Gŵyl Ddewi**

Dyma lun o blant y Cylch yn eu gwisgoedd Cymreig ar gyfer Dydd Gŵyl Ddewi.

Bingo Pasg

Bydd y Cylch yn cynnal bingo Pasg ar nos Fercher, Ebrill 18eg yng Nghlwb Criced Bethesda am 6.30 y.h.

Gwobrau gwerth chweil a raffl ar y noson. Croeso i bawb. Yr holl elw at Gylch Meithrin Cefnfaes.

CYLCH MEITHRIN CEFNFAES

Mae Cylch Meithrin Cefnfaes yn awyddus i gynnig lleoliad gwaith i unrhyw un sy'n dilyn cwrs yn y Blynyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaen/NVQ lefel 2/3 neu Ddiploma) ac am gael profiad gwaith gyda phlant oed cyn-ysgol.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Kerry, yr arweinydd ar 07515860901 neu 602593

Bore Agored

Bydd Cylch Meithrin Cefnfaes yn cynnal bore agored ar gyfer cofrestru plant a fydd yn dechrau yn y cylch ym mis Medi.

Dewch draw am banded a sgwrs efo Kerry, Nerys ac aelodau staff y cylch ar fore Mercher, 20 Mehefin rhwng 9.30 a 11.00 y bore.

Byddwn yn edrych ymlaen at eich croesawu

07515860901**Llwyddiant Siân**

Dyma lun o Siân Rhys, Rhes Gordon Bethesda sydd wedi cyflawni camp arbennig iawn. Daeth Siân i'r brig yn ei dosbarth yng nghystadleuaeth sboncen BUCS a hynny drwy wledydd Prydain. Mae'n dda gweld chwaraewyr ac athletwyr ifanc o'r dyffryn yn cyrraedd y fath safon. Mae Siân yn dilyn cwrs gwyddor chwaraeon ym Mhrifysgol Caerdydd.

CYLCH MEITHRIN CEFNFAES

angen
CYMHORTHYDD

2 fore yr wythnos dydd Mercher a dydd Gwener (3 awr y bore, a bod wrth gefn)

Cysylltwch â'r Cylch neu Kerry

07515860901

Ceri Dart oedd yn trefnu ar gyfer y Cyfarfod Gweddi misol a chafodd gymorth gan Joe Hughes, Mair Jones a Rhiannon Evans.

Cynhaliwyd Dydd Gweddi Merched y Byd yn Jerusalem ar y pñawn Gwener cyntaf o'r mis. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Megan Tomos, Carmel a daeth nifer dda ynghyd. Y Ficer, y Barchedig Nia Williams roddodd yr anerchiad. Cynhaliwyd Cymdeithas y Chwiorydd nos Iau, Mawrth 8 o dan lywyddiaeth Jean Ogwen Jones. Y gwestai oedd Bleddyn a Maureen Hughes o Lanrwst. Ar ôl iddynt ymddeol maent wedi mwynhau crwydro a chafwyd hanes y daith i Tseina ganddynt. Daeth y Gymdeithas Lenyddol i ben gyda gwahoddiad i fynd i Ysgol Llanllechid i glywed y plant yn perfformio'r darnau ar gyfer Eisteddfod Sir yr Urdd. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar eu llwyddiannau yno. Dymunwn bob hwyl iddynt hwy a phlant ysgolion eraill yr ardal yn yr Eisteddfod Fawr. Diolch i'r

Brifathrawes a'r athrawon eraill am eu croeso ac am y banded hyfryd. Fe fydd gweithgareddau'r gaeaf yn dod i ben ond peidiwch a anghofio bod croeso i'r Gwasanaethau ar y Sul, i'r Seiat ac i Lenwi'r Cwpan bob bore dydd Iau.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA**'LLENWI'R CWPAN'**

Dewch am sgwrs a phaned Bob bore dydd Iau rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

EGLWYS UNEDIG BETHESDA Trefn y Gwasanaethau

22 Ebrill,
Parch. Iorwerth Jones Owen
29 Ebrill, Y Gweinidog.
6 Mai, Y Parch W.H. Pritchard
13 Mai, Y Gweinidog.
Ebrill 15 Y Parch. Ieuan Lloyd

Meithrinfa Ogwen Cyf

O fore Llun, 30 Ebrill, bydd y Feithrinfa ar agor o 7.30 y bore, gan obeithio y bydd hyn yn hwyluso'r baich i rieni. Llongyfarchiadau i Anti Katrina a'i phartner, Darren, ar enedigaeth merch – Casey Wyn, ar 1 Mawrth. Pob lwc i'r teulu bach!

Cafwyd Diwrnod Agored llwyddiannus fore Sadwrn, 31 Mawrth. Croesawodd Pepa Pinc nifer o'i ffrindiau a'u rhieni. Diolch i bawb am ddod ac ymuno yn yr hwyl.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

yng Nghapel Jerusalem Estynnir croeso cynnes i bawb i oedfaon Sul

Bore Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10.00
Hwyr Gwasanaeth am 5.00

Capel Bethania Oedfaon

6 Mai:
Parchedig Nia C. Williams.
20 Mai:
Cau – Cymanfa'r Annibynwyr.

Oedfaon am 5.30 ar y Sul
cyntaf a'r trydydd o'r mis.

Croeso Cynnes i Bawb

Sefydliad y Merched, Carneddi

Sefydliad y Merched, Carneddi Rhoddodd ein llywydd, Gwyneth Morris, groeso cynnes i bawb ar noson hollol wahanol i'r rhai blaenorol lle'r oedd Bethesda o dan eira mawr! Ond rhyfedd beth mae tipyn o haul yn gallu ei wneud yntel! Yr oedd ychydig o'r aelodau yn ymddiheuro am amryw resymau ac fe aeth Gwyneth ymlaen i longyfarch Doris Shaw ar ddod yn hen nain. Ei hŵyr, Neil, a Sara wedi cael bachgen bach, ond dim mor fach chwaith; yr oedd yn pwysu 9 pwys. Gobeithiem fod Ettie Evans yn dal i wella ac anfonwyd ein cyfarchion at Nancy Thomas, hithau wedi cael pen-glin newydd yn ddiweddar.

Yn yr ysbyty yr oedd Glenys Wyn Jones wedi cael ei phen-blwydd yn 80 oed. Mae ein cyfarchion am wellhad yn mynd ati. Darllenwyd cofnodion mis Mawrth gan Jean Hughes a'r llythyr misol gan Gwyneth Morris.

Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig W. R. Williams, mab y diweddar Charles Williams, Bodffordd. Wedi bod yn weinidog yn y Felinheli am flynyddoedd ond wedi ymdeol ac yn byw yn Amlwch erbyn hyn. Cawsom noson ddifyr iawn ganddo yn rhoi ei atgofion am gymeriadau yr oedd wedi eu cyfarfod yn ystod ei yrfa fel gweinidog. Diolchwyd i W. R. Williams gan Gwyneth Morris ac i'r gwestwagedd am y baned. Enillydd y raffl, yn rhoddedig gan Dilys Jones, oedd Jean Hughes.

Clwb Cant Pwyllgor Apêl Bethesda Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012

Mis Mawrth

£40.00 Mrs Ifanwy Jones,
Llandderfel (31)

£24.00 Mrs Dilys Parry,
Rhiwlas (8)

£15.50 Rupert Bath, Bethesda
(126)

Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Iau, Mawrth 28 yng Nghanolfan Cefnfaes.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Margaret Jones a'r cyfeilydd oedd Gwenno Evans. Roedd amryw o'r merched yn absennol, llawer yn dioddef oddi wrth yr annwyd trwm sydd yn mynd o gwmpas. Croesawodd y Llywydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Ffion, ei hwyres hynaf a oedd wedi dod am dro.

Llongyfarchwyd Jennie Jones ar ddod yn hen-nain i Harri Llŷr ac Eurwen Morris ar ddod yn hen-nain i Lili Gwenllian. Diolchodd y Llywydd i bawb am gyfraniadau at y bwyd a phob cymorth arall tuag at y Noson Ddathlu a gynhaliwyd yng nghapel Jerusalem fis Mawrth.

Cafwyd noson i'w chofio. Diolch i Andre ac Ian am dynnu lluniau mor dda. Penderfynodd y gangen gyfrannu rhodd o£150 tuag at Eisteddfod yr Urdd a gynhelir ym Mharc Glynllifon ddechrau mis Mehefin.

Rhoddwyd gwobr Iwcus gan Jean Northam ac enillwyd hi gan Megan Wyn Phillips. Y gŵr gwadd oedd Medwyn Williams, y garddwr enwog o'r pentref gyda'r enw hiraf yng Nghymru! Rydym yn hen gyfarwydd a'i groesawu atom i Ferched y Wawr a hefyd i Gymdeithas y Chworiydd, felly gwyddom am ei orchestion rhyfeddol ym myd garddio, tyfu llysiau yn arbennig.

Y tro yma clywsom am y gwahoddiad i ddangos ei waith yn Cincinnati. Roedd cyrraedd yno a medru trefnu i osod ei stonddin yn gamp ynddo'i hun heb sôn am y clod yr enillodd yno. Os oes gennych awydd ceisio efelychu ei gamp, cofiwch am yr hadau mae Medwyn a'i deulu yn eu gwerthu- fe fydd archebu o'r catalog yn ddechreuad beth bynnag!! Diolchwyd iddo am ein dysgu a'n diddori gan Jean Ogwen Jones. Diolchodd hefyd i Medi a Rita am baratoi'r baned ac i Margaret am addurno'r byrddau a chyflwyno cwningen basg siocled i bob aelod.

Cofiwch ymweld â Phabell Merched y Wawr yn Eisteddfod yr Urdd er mwyn gweld gwaith rhagorol Margaret a Jên. Dymunant ddiolch i bawb fu yn cynorthwyo gyda'r gwaith. Fe fydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Ebrill 26. Fe fyddwn yn paratoi rhaglen at y flwyddyn nesaf.



Priodas

Ar brynhawn dydd Sadwrn, 17 Mawrth, yng ngwesty Carreg Môn, cynhaliwyd priodas Helen Glynne, merch Gareth a Nancy, 10 Ffordd Pantglas a Paul John Wilkinson yn wreiddiol o St Helen's. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub LL57 3LW
☎ 601880

Raymond Tugwell,
9 Ffordd Llanllechid
☎ 601077

Gradd

Llongyfarchidau i Angharad Hughes, Tandderwen ar ennill gradd M.A. mewn ysgrifennu creadigol yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor

Gwellhad Buan

Da yw deall fod y Cynghorydd Pearl Evans, Stryd Britannia adref wedi treulio pum wythnos mewn gwahanol ysbytai. Hefyd Twm Ffranc Jones, Maes Bleddyn yntau wedi derbyn triniaeth yn ddiweddar yn yr ysbyty. Brysiwch wella i'll dau.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Olwen Lewis, Rhos Bryn Owen sydd yn yr ysbyty.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Paul, Emma a Llifon, Maes Bleddyn ar achlysur trist colli eu tad, Derek Jones, ym Methesda. Bu farw Mrs Ann Rowena Jones, Hen Barc ar 23 Mawrth yng nghartref Plas Pengwaith, Llanberis. Roedd Mrs Jones yn un o drigolion hynaf yr ardal a hithau'n 98 mlwydd oed. Bu Mrs Jones yn aelod gweithgar a ffyddlon yn Eglwys Santes Llechid am flynyddoedd cyn cau yr Eglwys. Cymerai ddi-ddordeb mawr yn hanes yr ardal ac roedd ei gwybodaeth a'i hatgofion yn werthfawr iawn i bobl oedd yn archwilio hanes lleol. Bu'r angladd yn amlogfa Bangor ar 2 Ebrill. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll yn eu colled.

Anfonwn gofion at y Cynghorydd a Mrs Godfrey Northam ar achlysur trist o golli modryb i Godfrey yn Ne Cymru.

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus arbennig i Mrs Jean Williams, Maes Bleddyn ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed.

Diolch

Dymuna Keilly Tugwell ddiolch am y gefnogaeth a'r cymorth a dderbyniodd wrth gynnal bore coffi yn y Ganolfan. Daeth nifer fawr yno ynghyd â Sali Mali a Sam Tân. Gwnaethpwyd elw o £500 tuag at gronfa y Cylch Ti a Fi lleol.

Clwb yr Henoed

15 Chwefror - cafwyd prynhawn difyr gyda Neville Hughes yn sôn a hel atgofion am emynau a chaneuon o'n plentyndod. Cawsom ambell i stori ynghlwm â hwy a chyfle i ganu ac i chwerthin bob yn ail.

29 Chwefror - cawsom daith ddifyr i Venue Cymru yn Llandudno lle cawsom fwynhau sioe Joseff a'i Gôt amryliw. Pawb wedi mwynhau y diwrnod allan.

14 Mawrth – Daeth Mrs Betty Williams â nifer o greiriau hanesyddol sydd wedi bod yn ei meddiant ers blynyddoedd. Prynhawn difyr iawn o hel atgofion.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs Jean Williams, 60 Maes Bleddyn, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar 27 Mawrth. Cariad mawr oddi wrth y plant a'r teulu i gyd.

Capel Bethel Gwasanaethau

22 Ebrill: Parchedig Elwyn Jones
29 Ebrill: Parchedig Dewi Morris
06 Mai: Parch. Merfyn Jones
13 Mai: Y Gweinidog
20 Mai: Mr Jack Roberts

**Oedfaon am 2.00 o'r gloch.
Croeso cynnes i bawb.**

CAPEL CARMEL**Mis Pysur**

Dyna oedd hanes mis Mawrth i blant a phobl ifanc Carmel ar Ddydd Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd te bach gyda chyngerdd yn dilyn gan blant yr Ysgol Sul. Braff oedd gweld y festri'n llawn a chawsom bnawn difyr.

Diwedd y mis cynhaliodd Clwb Dwylo Pysur gyngerdd amrywiol. Roedd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi. Roedd elw'r ddau gyngerdd yn cael ei roi i gronfa Mali Parry Owen i'w helpu wrth iddi fynd i wneud gwaith gwirfoddol yn Hondiwr. Bydd yn gweithio ymysg pobl a phlant difreintiedig iawn. Trosglwyddwyd sic am £400 gyda dymuniadau gorau yr aelodau a bendith Duw yn ei gwaith.



Cyngerdd Gŵyl Ddewi



Cyngerdd Miri Mawrth gydag aelodau Clwb Dwylo Pysur a Mali (ar y dde yn y rhes flaen).

**CAPEL CARMEL
Gwasanaethau**

22 Ebrill Gweinidog 2.00 a 5.00
29 Ebrill Parch. T. Roberts 2.00
06 Mai Gweinidog 2.00 a 5.00
13 Mai Cyfarfod Canu 2.00
13 Mai Oedfa Cymorth
Cristnogol 5.00
20 Mai Cymanfa Ysgolion Sul
Bore 10.30 Pendref, Bangor
Hwyr 5.30 Bethlehem, Talybont

Yr Ysgol Sul am 10.30 y.b.
Dwylo Pysur Nos Wener 6.30

Croeso Cynnes**CARMEL LLANLLECHID****Te Bach**

Pnawn Llun
23 Ebrill

2.30 tan 4.00 o'r gloch

Croeso Cynnes**Cylch Ti a Fi**

Bob bore Gwener
10 – 11.30yb
Canolfan Rachub a Llanllechid
Dewch am banad, sgwrs,
chwarae a chàn!
Ffôn: 602874

Nant Ffrancon**Capel****Nant y Benglog (A)**

08 Ebrill Pasg - Dim oedfa
15 Ebrill D.R. Williams (Conwy)
22 Ebrill Conwy Ellis
29 Ebrill I'w gyhoeddi
06 Mai Parch. Dewi Morris
13 Mai Gareth Edwards

Croeso cynnes i bawb
am 2.00 o'r gloch.

Sky ar y Sgwâr

Mewn rhifyn diweddar o gylchgrawn Golwg ymddangosodd erthygl gan Tommie Collins ar Bryn Law, newyddiadurwr pêl-droed gyda'r cwmni teledu Sky Sports. Mae'n ymddangos yn rheolaidd ar benwythnosau ar y sgrin yn adrodd digwyddiadau o wahanol gaeau pêl-droed gan roi gwybodaeth lawn i'r gwylwyr am y digwyddiadau diweddaraf ar y maes cicio. Mae yn gwneud y gwaith ers dros 13 o flynyddoedd bellach.

Yn yr erthygl mae'n sôn am ei gysylltiadau Cymreig, ac fe ddywedodd Mr Law ei fod yn cofio dod i Rachub ar ei wyliau at ei nain a'i daid. Rhaid oedd ymchwilio ymhellach!


Gyda chymorth Mr Collins ac anogiad Elwyn Parry o'r Wyddgrug, llwyddais i gysylltu gyda Mr Law yn ei gartref yn Leeds. Roedd yntau yn ei dro yn fwy na pharod i gydweithredu. Wedi ei eni yn Lerpwl, treuliodd flynyddoedd yn ardal Rhiwabon ger Wrecsam, yn ddisgybl yn

Ysgol Rhiwabon lle'r oedd Mark Hughes yn un o'i gyd-ddisgyblion. Mae yn cofio dod i Rachub ar wyliau pan yn yr ysgol at ei nain a'i daid sef William a Mary Thomas (Corbri). Roeddynt wedi ymddeol o'u gwaith yn Lerpwl a symud i 11 Ffordd Llanllechid, a hwy roddodd yr enw

Y Bwthyn ar y tŷ, sydd yn dal i gario'r enw o hyd. Mab yw i Enid Law (Thomas), merch Mr a Mrs Thomas. Mae hi a'i gŵr bellach wedi ymgartrefu yn Llangollen. Wrth siarad fe gofiodd ei fod yn chwarae gydag un o hogia y Post ar draws y ffordd i'r tŷ, sef Eryl Hughes (Post). Cofiai chwarae yng ngardd gefn y Post, y cae chwarae, mynd i'r siopau lleol yn enwedig i'r siop tsips ar yr allt. Cofiai grwydro ar hyd y mynydd am ambell i bnawn.

Mae ganddo gof am fynychu Ffair Llan, ond nid yw'r atgof yn bleserus yn ystod un ymweliad. "Wedi mynd ar yr olwyn fawr yr oeddwn, mae'n siŵr fy mod tua naw neu ddeg oed, ond yn anffodus fe euthum yn sâl gan daflu i fyny ar yr olwyn. Wedi dod adref rhoddodd nain joch o frandi i mi, at yr iechyd fel y dywedodd nain". Cof arall sydd ganddo yw am y diweddar William John Evans yn adrodd hanesion am yr ardal wrth y ddau ohonynt.

Diolch i Bryn Law am ei gydweithrediad a dymuniadau gorau iddo yn y dyfodol.



Eryl yn y cae chwarae.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda ☎
600965

Penblwydd Priodas

Llongyfarchiadau i Alan a Jean Jones, Dedwyddfa, Llanfairpwll a Hywel a Meryl Edwards, Carneddi, Bryngwran ar ddathlu eu priodas ruddem ar y 1af o Ebrill. Cariad mawr a dymuniadau gorau gan mam – Mari Williams, 100 Carneddi – a gan y plant a'r wyrion i gyd.

Llawdriniaeth

Da deall bod Menna Roberts, Llys Artro yn gwella ar ôl llawdriniaeth ar ei chlun yn Ysbyty Gwynedd, Bangor yn ddiweddar.

Dymuna Menna a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o ewyllys da, boed yn gardiau, galwadau ffôn neu'n ymweliadau tra mae'n dod dros y driniaeth.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda ☐
☎ **600689**

Llongyfarchiadau

i Colin a Delyth Jeffreys, Llangoed, Nant Graen, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf i Noa Jac, mab Sioned a Huw yn Abercaseg. Pawb wedi gwirioni efo'r bychan.

Diolch

Dymuna Gethin Jeffreys ddiolch o galon i bawb am ei noddi i redeg ras marathon Efrog Newydd ym mis Tachwedd. Gwnaed swm sylweddol o £2,000 tuag at elusen "Action for Kids". Cwblhaodd Gethin y cwrs mewn 4 awr a 4 munud. Camp ardderchog yn wir. Da iawn Gethin a diolch i ti.

Yn gwella

Ydi, mae Mr John Glyn Jones o Dan y Gadlas Isaf yn gwella ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Wrecsam. Anfonwn ein cofion ato am wellhad llwyr a buan.

Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Nain a Thaid

Llongyfarchiadau i Wayne a Tracy Sherlock, Ciltrefnus, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganed mab bychan, Jac Wayne, i'w merch, Jade, a'i phartner, Michael. Dymuniadau gorau i chi fel teulu

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo gyda Jackie Stephenson, Ciltrefnus, yn ei phrofedigaeth o golli Derek Jones, Rhos Penrhyn. Rydym, hefyd yn meddwl ar yr adeg trist hwn am fam y diweddar Derek, Mrs Joyce Jones, Maes y Garnedd, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth fawr.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn gyda Peter a Delyth Robinson a'r teulu, ac Idris a Rhian Roberts, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth o golli modryb, y ddiweddar Mrs Myfanwy Slater, Llanfaes, Ynys Môn

Marwolaeth

Trist oedd clywed y newyddion am farwolaeth Dick Sandison, Maes y Garnedd. Cyn symud i Faes y Garnedd bedair blynedd yn ôl, bu Dick yn byw yn Stryd y Ffynnon am ugain mlynedd. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr gyda Berwyn a Nia Williams a'r teulu, a Myfanwy Owen, Stryd y Ffynnon a'r teulu, yn eu profedigaeth.

I'r ysbyty

Treuliodd Betsi Lŵ, Gwernydd, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ystod y mis diwethaf. Braf yw dweud ei bod bellach adref ac yn gwella. Pob dymuniad am wellad llwyr a buan iti Betsi.

Priodi

Llongyfarchiadau i Stephen Roberts, Ffordd Gerlan gynt, a

Cario'r fflam

Llongyfarchiadau i Mari Davies, Tŷ Dŵr, ar gael ei dewis yn un o'r rhai i gario'r fflam Olympaidd pan fydd ar ei thaith o gwmpas Prydain. Bydd Mari yn cario'r fflam ym Mhorthaethwy ar Fai 29 pan fydd yn mynd trwy Ogledd Cymru. Cafodd Mari ei henwebu gan swyddog Pobl Ifanc Egniol oherwydd ei gwaith fel Llysgennad Ifanc ar gyfer y Gemau Olympaidd, a'i llwyddiant yn y byd hwylio.



Da iawn, ti Mari! Mae hyn yn anrhydedd fawr, ac yn dâl am dy holl waith a'th llwyddiant. Yn anffodus bydd Mari yn methu ychydig o'r gemau eu hunain oherwydd y bydd yn cystadlu ym mhencampwriaeth Topper y Byd yn yr Iseldiroedd. Pob hwyl iti yn y fan honno, hefyd Mari!

Cheryl Thomas, Tŷ Isa, Bethesda, ar eu priodas yn ddiweddar yn Eglwys Glanogwen. Ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch yn eich bywyd priodasol

Llwyddo mewn Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Cassie Stephenson, Ciltrefnus, am lwyddo yn ei phrawf gyrru, a hynny ar y cynnig cyntaf. Pob hwyl gyda'r gyrru rwan, Cassie!

Y Caban

Cynhaliwyd noson Bingo Wyau Pasg yn y Caban yn ddiweddar. Cafwyd noson lwyddiannus a hwyliog dros ben o dan arweiniad Owie Williams, a bu i bawb fwynhau eu hunain yn fawr. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch o galon i Owie am ei waith yn galw'r rhifau ac i Joyce Jones am werthu'r tocynnau. Diolch, hefyd, i bawb a gefnogodd y noson, ac i'r gwahanol gwmnïau am gyfrannu'r gwobrau.

Hen nain a hen daid

Llongyfarchiadau i Eurwen a Dafydd Morris, Garnedd Uchaf, Ffordd Abercaseg, ar ddod yn hen nain a hen daid. Ganed merch fach, Lili Gwenllian, i wyres Eurwen, Ceri, a'i phartner, James.

Taith Gerdded

Hoffai Ann Williams, Stryd y Ffynnon, ddiolch i bawb am eu haelioni yn ei nodd i ar gyfer taith gerdded i godi arian at Apêl Gerallt Jones. Cerddodd Ann o Lyn Ogwen i Felin Fawr ar brynhawn braf o wanwyn a chododd £300 at yr apêl. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cefnogaeth!

CYLCH MEITHRIN GERLAN

Llun i Gwener
9:00 - 12:30
2-4 oed

Cysylltwch â ni ar:
07768405874

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Diolch

Hoffai Laura ac Aneirin, Pontyberem, ddiolch o waelod calon i'w holl ffrindiau yn y Dyffryn a thu hwnt am eu mawr garedigrwydd tuag atynt yn dilyn geni Sisial Maela. Maent wrthi'n ddyfal yn ysgrifennu cardiau diolch, a gobeithio na fydd hi ddim yn hir nes bydd pawb wedi clywed oddi wrthynt!

Dymuna Jean Hughes, Bryn Awel, ddiolch yn fawr i'w theulu, aelodau Bwrlwm Bethlehem a phawb yn ardal Dyffryn Ogwen a fu mor garedig wrthi ar ei phenblwydd arbennig.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn fel ardal â theulu Amanda Williams, Carreg Boeth, Llanddaniel (gynt o 17 Dolhelyg) a fu farw'n ddiweddar yn dilyn gwaeledd hir. Anfonwn ein cofion at Elved a Mair, Ann, Michael a Lynne a'r teulu oll yn eu colled fawr.

Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Katrin Newman, "Abbeyfield", Talybont, a Chris Smith ar eu priodas yn ddiweddar.

Capel Bethlehem, Talybont

Ebrill

22 Parchg Iorwerth Jones-Owen, Caernarfon.
29: Gweinidog.

Mai

06: Parchg W. H. Pritchard;
13: Gweinidog;
20: Cymanfa Ganu'r Annibynwyr ym Methlehem am 5.30;
27: Gweinidog.

Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Bwrlwm Bethlehem

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd Noson Goffi'r Bwrlwm ar nos Fercher 14 Mawrth i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Eryri 2012 (Apêl Ardal Talybont). Gwnaed elw o £560.

Cymanfa Ganu Sul y Blodau

Y farn gyffredinol oedd bod y Gymanfa flynyddol hon, a drefnir gan Bwyllgor Cymdeithas Talybont a'r Cylch, yn llwyddiant eto eleni. Diolchodd llywydd y noson, Neville Hughes, i Mr. Edward Morus Jones, Llandegfan (arweinydd), Mr. D. Wynn Williams, Tregarth (organydd), Parti Clwb Dwylo Prysor Carmel Llanllechid (dan arweiniad Mrs. Helen Wyn Williams) a Chôr y Dyffryn a'u harweinydd, Mrs. Menai Williams am eu cyfraniad gwerthfawr i'r noson. Diolchwyd hefyd i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth a'u canu da, ac i bawb am gynorthwyo gyda'r paratodau. Gwnaed elw o £100 tuag at Apêl Ardal Talybont, Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012.

Eglwys Maes y Groes

Ar y Sul cyntaf o'r mis, yn dilyn y Gwasanaeth Teuluol, cynhaliwyd bwffê yn yr Ysgoldy i ddathlu Gŵyl Dewi Sant. Diolch i bawb a drefnodd y wledd flasu, a'r gefnogaeth i wneud yr achlysur yn llwyddiant.

Llongyfarchiadau mawr i Cerys Hughes a Siôn Lloyd Jones ar achlysur eu priodas ar 10 Mawrth. Merch Brian a'r diweddar Joan Hughes yw Cerys, a Siôn yn fab i Jac ac Elizabeth Jones o Langefni. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn yr Eglwys o dan arweiniad y Parchedig John Mathews gyda Geraint Gill wrth yr organ. Cafwyd y wledd briodas yng ngwesty'r Afr ym Meddgelert. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

Cynhaliwyd Ffestri'r Pasg ar nos Fawrth y 27ain o'r mis. Ail-etholwyd Dennis Wright a Catrin Hobson yn wardeiniaid a Barry Lill yn drysorydd. Diolch o galon iddynt am eu gwaith caled ar hyd y blynyddoedd.

Cymdeithas Diogelu Hen Beiriannau Amaethyddol Gogledd Cymru

Gan fod Eisteddfod yr Urdd a'r arddangosfa flynyddol o hen beiriannau yng Nglynllifon yn gorgyffwrdd, mae'r arddangosfa eleni i'w chynnal ar 24 Mehefin. Bydd yn cynnwys crefftau gwledig, peiriannau o bob math, ynghyd â nifer o weithgareddau eraill.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Cydymdeimlad

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Mrs Mair Ena Williams, Walnut Cottage, Pentre Llandygái gynt. Bu farw Mrs Williams yng nghartref 'Convent of Mercy', Bae Colwyn ar 27 Chwefror. Roedd pawb yn ei hadnabod fel Mrs Thomas, dynes trin gwallt ac roedd hi'n wraig hwyliog dros ben a'i thŷ fel pin mewn papur bob amser.

Cydymdeimlwn â Merfyn ei mab ac â'i chwaer a'r teulu i gyd. Claddwyd ei llwch ym mynwent Sant Tegai gyda'r Parch. John Matthews yn gwasanaethu.

Yn dawel yn ei gartref, Tegfan, 10 Vicarage Gardens, Llandudno ar 9 Mawrth, bu farw Owen Wyn Owen, (Tregarth gynt) yn 82 mlwydd oed. Cofiwyn Wyn fel darllenydd lleyg, fel ei dad Mr Idwal Owen o'i flaen. Dyn annwyl, boneddigaidd a thawel oedd Wyn bob amser ac un felly ydoedd yn Ysgol y Sir (yr hen 'County School' fel y cyfeirid ati) flynydoedd maith yn ôl. Cydymdeimlwn â Linda ei wraig, Carol ei ferch a'r teulu cyfan yn eu galar.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i David a Bethan Hughes, Bangor ar enedigaeth eu mab bychan, Rhys, a aned ar 9 Mawrth. Mae'n siŵr bod Lowri wrth ei bodd yn cael brawd bach i ofalu amdano. Mae Rhys yn ŵyr i'r ddiweddar Dilys Jones, Bryn, Llandygái ac i John a Margaret Hughes, 8 Cilgant Alotan, Bangor. Bendith Duw ar y teulu i gyd.

Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau da at gleifion o'r Bryn ac o'r pentref. Mae'r rhain yn cynnwys Ernie a Nerys Coleman, Ieuan a Ceinwen Evans, Jim a Beryl Hughes, Olwen Lytham, Gwen Morsley, Cassie Tindall, Betty Williams, Dorothy Proudley Williams a Joan Willis. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn codi allan fel mae'r tywydd braf yn dod yn nes.

Penblwyddi

Llongyfarchiadau i Pauline, Muriel a Mary fydd yn dathlu eu penblwyddi ym Mis Ebrill ac i Edmund fydd yn cael ei benblwydd ym Mis Mai. Gobeithio y cewch amser hapus ond peidiwch â gwledda'n ormodol.

Llun o'r Eglwys

Pleser o'r mwyaf oedd gweld llun o Eglwys Sant Tegai ym Mhapur Menai ym mis Chwefror eleni. Diolch o galon i Mr Ray Tindall, Tŷ Mawr am roi llun o'r eglwys i Gymdeithas Morrisiaid Môn a oedd yn ymweld â Llandygái ar

29 Hydref 2011. Rydym ar y map unwaith yn rhagor.

Bingo

Cynhaliwyd bingo yn neuadd Talgai ar nos Fawrth, 20 Mawrth. Roedd yn noson arbennig i Robin gan fod Pauline a Raymond wedi paratoi rhyw barti bach yn ddiarwybod iddo – roedd ei benblwydd y diwrnod hwnnw. Diolch o galon i Pauline a Raymond am drefnu popeth ac i'r merched am helpu yn yr egwyl.

Sefydliad y Merched

Croesawodd ein llywydd, Anne Hughes, bawb i gyfarfod mis Mawrth ar y 26ain. Cafwyd sawl ymddiheuriad am absenoldeb. Darllenodd Sheila lythyr y ffederasiwn a nodwyd ei gynnwys. Y Dyn Cig o Lanrug oedd siaradwr y noson a chawsom noson arbennig yn ei gwmni. Daeth â thamaid enfawr o gig eidion a dangosodd Iwan, ei fab, sut oedd yn ei dorri yn wahanol dameidiau ar gyfer eu coginio. Dangosodd Mr Jones dwrci wedi tynnu pob asgwrn ohono, a'i stwffio ar gyfer ei goginio ond hwyl fawr y noson oedd gwahodd rhai o'r aelodau i glymu selsig

Eglwys Sant Tegai

Gwaeledd

Anfonwn ein cofion anwylaf at Mrs Jane Couch, Mrs Beryl Edwards, Mr Gwynne Edwards a Harry Gross a dymunwn adferiad buan i chi i gyd.

Llongyfarchiadau

Carem longyfarch y Parchedig John Matthews ar ei wneud yn Ddeon Gwlad dros dro. Fore Sul, 18 Mawrth yng ngwasanaeth Sul y Fam roedd John druan yn cymryd gwasanaeth y cymun ond roedd yn chwarae'r organ hefyd. Roedd damwain wedi digwydd ac fe gaewyd y lôn ac oherwydd hynny ni allai Geraint yr organydd fod yn bresennol.

Penblwydd

Llongyfarchiadau i Hazel fydd yn dathlu ei phenblwydd ar 17 Ebrill – gobeithio y cewch ddiwrnod hapus Hazel.

Tynnu lluniau

Bu ffotograffydd proffesiynol yn tynnu lluniau yn Neuadd Talgai ar fore Sadwrn 17 Mawrth, Ar werth hefyd roedd lluniau a wnaed gan y diweddar Dr Allan Probert. Gwnaed elw o £117 i gronfa atgyweirio'r eglwys. Diolchwn i gwmni ffotograffeg Leonardo's a theulu Worthing ac i bawb a gefnogodd yr achlysur tynnu lluniau.

Y croeshoeliad (Stainer)

Bu canmoliaeth fawr i'r noson yn Sant Tegai ar nos Sul 25 Mawrth. Roedd y côr 'Cantabile' yn wych ac roedd nifer dda yn bresennol ar y noson. Cafwyd lluniaeth yn Neuadd Talgai ar derfyn y noson – diolch i aelodau'r côr ac yn arbennig i Linda Irons. Diolch hefyd i'r merched fu'n gwneud y bwyd ac i'r rhai fu'n gweini yn y gegin ac i Nerys am drefnu popeth.

Diolch

Oherwydd fod 2012 yn flwyddyn naid roedd gweithwyr yr

Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell Penrhyn yn cael diwrnod ychwanegol o wyliau ar 29 Chwefror. Roeddent wedi gwirfoddoli i weithio yn y gymuned y diwrnod hwnnw. Daethant i lanhau'r eglwys a buont yn brysur iawn drwy'r dydd. Diolch o galon i Richard Pennington a'i dîm – roedd bob man yn lân iawn a'r pryfed cop wedi hen ddiflannu.

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones

2 Stryd Fawr, Glasingfryn,
Bangor LL57 4UP
01248 351067
Marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched

Mwynhawyd noson Cawl a Chân ar y 14eg o Fawrth. Croesawyd pawb i'r wledd gan ein llywydd, Mrs Ingrid Farrer, a llongyfarchwyd dwy o'r aelodau, sef Mrs Jean Pierce a Mrs Pat Jones, ar ddatllu pen-blwydd arbennig ar ddechrau'r mis.

Cafwyd pryd ardderchog wedi ei baratoi gan yr aelodau. Roedd pawb wedi cyfrannu ac roedd y cawl eleni dan ofal Mrs Sarah Flynn.

Wedi'r gwledda, cawsom ein diddanu gan Mandy Barnes a Llewelyn Owen. Gitaryddion clasurol yw'r ddau a mwynhawyd darnau o fiwsig hyfryd ganddynt. Awyrgylch arbennig i ddiweddu noson lwyddiannus.

Diolch i Mair am drefnu, a diolch i bawb am gyfrannu.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i Don a Barbara Chadwick, 28 Bro Infryn, sydd wedi dathlu eu pen-blwydd priodas diemwnt yn ddiweddar.

Cydymdeimlad

Anfonwn ein cydymdeimlad at Josie O'Neil, 34 Bro Infryn, sydd wedi colli ei mam yn ddiweddar.

Newyddion trist

Roedd tristwch ym mhentref Glasingfryn wrth inni glywed am farwolaethau sydyn dau o drigolion y pentref. Bu farw Mr Tony O'Donovan, Tŷ Penrhyn, yn yr ysbyty ar ôl salwch annisgwyl a byr. Anfonwn ein cofion at ei wraig, Joan, ei ferch, Nicki, a'r teulu oll.

Bu farw Geraint Griffith, neu Gerry fel yr oedd pawb yn ei adnabod, yn ei gartref, Glyndŵr. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei gymar, Gwenda, ei blant Shelley, David a Tammy a'r teulu oll.

Etholiad

Canolfan Glasingfryn fydd yr orsaf bleidleisio ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol ar ddydd Iau, 3 Mai. Bydd y Ganolfan ar agor o 7.00 y bore hyd at 10.00 yr hwyr. Cofiwch bleidleisio! Mae pleidlais pob un ohonom ni'n bwysig yn yr ymdrech i warchod ein gwasanaethau lleol.

Pwyllgor y Ganolfan

Cynhaliwyd cyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r Ganolfan nos Iau, Mawrth 22. Trafodwyd llawer o faterion gan gynnwys materion cynnal a chadw, yr angen i gofrestru tanc septig y Ganolfan gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, a'r Clwb Cant. Cynigiwyd hefyd y syniad o gynnal sêl cist car o dan do yn y Ganolfan yn y dyfodol ac fe benderfynwyd rhoi sylw manwl i'r syniad yn y cyfarfod nesaf. Bydd y Cyfarfod Blyneddol yn cael ei gynnal ar nos Lun, 11 Mehefin, am 7.30, i'w ddilyn gan gyfarfod o'r Pwyllgor.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Llinos Jones, Fferm Ty'n Ffridd, ar ei swydd newydd yn Adran Amgylchedd Cyngor Sir Powys.

Yn yr ysbyty

Dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs Sue Lee, Fferm Penhower Isaf, a gafodd ddamwain ddirifol pan ddisgynnodd oddi ar ei cheffyl, a bu rhaid ei hebrwng i'r ysbyty gan wasanaeth yr Ambiwllans Awyr, diolch amdanynt. Da yw deall ei bod yn gwneud cynnydd da yn Ysbyty Gwynedd.

Mae Mrs Elsi Prytherch, Erwau'r Gwynt, Waen Wen, yn gwella wedi cael dwy ben-glin newydd yn Ysbyty Gwynedd a Miss Margaret Griffith, 21 Caerhun, hithau wedi cael clun newydd. Gwellhad buan i chwi i gyd. Anfonwn ein cofion hefyd at Eifion Jones, Bro Eryri, Waen Wen, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Eryri.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs David Farrar, Penhower Uchaf Newydd, ar farwolaeth mam David, sef Mrs Kath Farrar oedd yn 96 oed.

Bingo

Cynhelir y Bingo nesaf ar 20 Ebrill yn y Ganolfan am 7.30yh, yr elw yn mynd tuag at Elusen "Sunny Day", sydd yn casglu arian i brynu cadair bwrpasol i ferch ifanc o'r ardal. Gwnaed elw o £148 yn y Bingo a gynhaliwyd ar 9 Mawrth tuag at Glwb Epilepsi Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad a chefnogaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rhannwyd y £811.50 a godwyd yn y nosweithiau Bingo i'r elusennau canlynol :-

Tŷ Gobaith, Cronfa Elusen Plant Lleol Ward Minffordd Ysbyty Gwynedd, Ambiwllans Awyr, RNLI, Ysgol Pendalar, Cronfa Nyrsys yn y Gymuned, Ymddiriedolaeth Llud yr Ymennydd, Uned Gofal Arbennig y Babanod Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn !

Clwb Cant y Ganolfan Mawrth

£20 - 20 - Peter Banham
£10 - 7 - Marie Langham
£ 5 - 6 - Liz Bestwick
£ 5 - 66 - Mrs Shaklady

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Cywiriad

Yn rhifyn Mis Mawrth o'r Llais cafwyd llun o froga. Ymddiheurwn am y camgymeriad. Nid llun gan Wyn James mohono ond llun a gyfranwyd yn garedig gan Mr Andy Williams. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Andy am ei haelioni.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Menai o Bryn Meddyg, Pentir ar basio Gradd 4 clarinet a Gradd 5 sacsoffon.

Llwyddiant Band Jás

Llongyfarchiadau i Menai, Bryn Meddyg, Pentir a Wesyn, Carreg y Nant Pentir am fod yn rhan o fand jas hynod lwyddianus Ysgol Tryfan Bangor a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod Sir yn ddiweddar. Pob hwyl i chwi oll yn Nglynllifon.

Eisteddfod yr Urdd

Fel rhan o apêl Pentir a Rhiwlas i godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd, Eryri 2012 bydd Glain Dafydd, Carreg Nant, yn ein diddori yn Eglwys Sant Cedol am 7.00 yr hwyr nos Wener, 20 Ebrill. Mae Glain fel y gwyddom yn enillydd gwobr Bryn Terfel ynghyd â nifer fawr o wobrau eraill. Ar hyn o bryd mae Glain yn astudio yn Ecole de Musique de Paris, ac yn cael ei thiwora gan y delynnores enwog Isabelle Perrin.

Eglwys Sant Cedol

Cawl a Chân

Nos Wener 16 Mawrth, cynhaliwyd noson o Gawl a Chân yn yr Eglwys. Diddanwyd y gynulleidfa gan Gôr Oriana gyda threfniadau amrywiol o alawon gwerin Cymreig ag emynau traddodiadol. Diolchwn i Lorna Todd a Chôr Oriana am noson wych, a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Garddwest

Cynhelir yr arddwest eleni am 2.00 o'r gloch brynhawn dydd Sadwrn, 26 Mai yn y Ficerdy, Pentir. Bydd cystadleuaeth agored, sef ffotograffeg ar y pwnc Byd Natur, a bydd y gystadlaeath yn cael ei beirniadu ar y diwrnod. Bydd amrywiaeth o stondinau a raffl yno ar y diwrnod. Croeso cynnes i bawb.

Cyfarchion

Anfonwn ein cofion y mis hwn i ddwy o'n cyfeillion sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, sef Alison Roberts, Rhiwlas a Margaret Griffith, Caerhun. Brysiwch wella eich dwy.

Clwb 100 - Mis Mawrth

1af Rhif 12
William Williams, Llanfairfechan
2ail Rhif 46
David E Williams, Glasinfryn
3ydd Rhif 22
Ann Williams, Rhiwlas

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau i Cedol Dafydd am ennill yr Unawd Piano dan 12 oed yn Eisteddfod Sir yr Urdd ac ar ddod yn ail yn yr Unawd Pres. Hefyd i Marteg Dafydd am ennill yr Unawd Telyn dan 12 oed. Mi fydd y ddau yn cystadlu yn y Genedlaethol fis Mehefin yng Nglynllifon a phob hwyl iddyn nhw yno. Bydd Glain Dafydd (telyn) yn cynnal cyngerdd yn Eglwys Sant Cedol ar Ebrill 20fed, 7:00yh, fel rhan o apêl Pwyllgor yr Urdd Pentir a Rhiwlas

Rhiwlas

John Huw Evans,
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎352835

Geni.

Ganwyd Owen Benjamin (Ben) i Deborah a Steffan Job, 34 Bro Rhiwen ar 22 Mawrth gan gyfaethogi bywyd y ddau. Mae Ben yn wŷr derbyniol i Dafydd a Gwenan Job Bangor ac i Malcom a Shirley Towers, Abertawe. Dymunwn bob bendith iddynt fel teulu.

Yn Llydaw ar 2 Ebrill ganwyd bachgen i Lleuwen Steffan a'i phartner. Bydd Steve Eaves a'r teulu, Bryn Llys, yn sicr o fod yn edrych ymlaen i weld Caradog a'i rieni adef yn Rhiwlas yn ystod y misoedd nesaf. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau atynt gan dymuno iechyd a hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Dymunwn fynegi cydymdeimlad gyda Arthur a Glenys Clarke 24(a) Caeau Gleision. Bu farw mam Arthur oedd yn byw yn Nebo ger Pen y groes.

Colled

Yn ystod mis Mawrth collwyd dau a fagwyd yn y pentref. Dau oedd yn parhau â meddwl uchel iawn o Rhiwlas.

Ar 9 Mawrth bu farw Hugh Lewis Williams o Langefni yn 88 mlwydd oed. Roedd Hugh ymhlith yr olaf i fyw ym Mhenyffridd gan symud yn bedair ar ddeg oed gyda'i rieni Ffowc ac Alice Williams ynghyd â John Richard a Stanley i 5 Bro Rhiwen.

Pan yn cyfarfod â Hugh byddai'r sgwrs yn ddfeth yn troi i sôn am ei atgofion o'i blentyndod yn y pentref ac yn enwedig y direidi a wna'i ef a'i ffrindiau ym Mhen y Ffridd.

Ei fagwraeth yn Rhiwlas fyddai prif destun sgwrs William Meurig Williams o Fangor hefyd. Bu farw Meurig ar 20 Mawrth yn 89 mlwydd oed. Cafodd Meurig ei eni a'i fagu yng Nghaeau Gleision, oedd yn dyddyn sylweddol a llwyddiannus ar y pryd.

Diddorol fyddai gwranddo arno yn sôn am ei blentyndod a'i atgofion am ei blentyndod yn Rhiwlas ac yng Nghapel Pisgah. Fe'i clywais yn adrodd pennau pregethau o'i gof sawl tro ac fel y 'capel bach' y soniai Meurig am Bisgah bob amser.

Braint fu cael adnabod y ddau ohonynt a dymunwn gydymdeimlo â theulu'r ddau yn eu profedigaeth.

Dymunio gwellhad

Cafodd Richard Owen (Evan) 33 Bro Rhiwen lawdriniaeth ddwys yn Ysbyty Gwynedd ddechrau Mawrth. Mae'n bleser adrodd ei fod yn gwella a'i fod i'w weld o gwmpas unwaith yn rhagor ac yr un mor barod ei sgwrs.

Profedigaeth

Yn dilyn colli Huw Lewis Williams a Meurig Williams, daeth y newydd am farw un arall o'r un genhedlaeth sef Goronwy Owen, yr ieuengaf o saith plentyn John a Jane Owen, Bryn Tirion, Rhiwlas. Roedd yn 91 oed.

Teuliodd Goronwy y rhan helaethaf o'i oes fel athro mewn gwahanol ysgolion yng ngogledd Lloegr. Symudodd i gylch Milton Keynes pan yn ymddeol. Cydymdeimlwn yn gywir gyda Dilys Parry, Bryn Tirion a arferai gadw cysylltiad agos gyda'i hewythr a'i deulu.

Cydymdeimlwn hefyd gyda chysylltiadau eraill ei deulu yn yr ardal.

Merched y Wawr, Cangen Rhiwlas.

Cyfarfu'r gangen Nos Fawrth, 13 Mawrth a chroesawyd ni i'r cyfarfod gan ein llywydd, Ann Roberts. Anfonwyd ein cofion at ein hysgrifenyddes, Heulwen Evans sydd heb fod yn rhy dda yn ystod yr wythnosau diwethaf

Er ei bod braidd yn ddiweddar, hwn oedd ein cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi a phwy'n well nag Angharad Tomos i roi sgwrs inni. Wrth ei chyflwyno cyfeiriodd Ann at y llu llyfrau i blant ac oedolion a gyhoeddwyd ganddi. Yn ogystal mae gan Angharad golofn wythnosol yn y Daily Post Cymraeg ac yn sicr mae'r darllenwyr selog yn ymwybodol o'i hoffter o deithio, a dyna oedd testun ei sgwrs.

Cawsom dipyn o'i hanes pan yn blentyn yn crwydro yma a thraw yn y garafan gyda'i chworydd a'i rhieni. Bu troeon trwstan a chawsom gynghorion ar beth i beidio'i wneud pan ar wyliau. Bu'r aelodau hefyd yn sôn am brofiadau a helyntion a gawsant hwythau tra ar wyliau.

Roedd pawb o'r farn inni gael noson gartrefol, hwyliog a hynod o ddiddorol. Diolchwyd yn swyddogol gan Iona a diolch hefyd i Dilys ac Einir am y teisennau cri a'r bara brith.

Dathlu Priodas Aur.



Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Ivor ac Iola Hughes, 107 Cae Glas. Dathlodd y ddau hanner can mlynedd o fywyd priodasol hapus a chytûn ar 10 Mawrth. Prin y gellir meddwl am garedicach dau nag Ivor ac Iola na dau mor barod eu cymwynas.

Tregarth

Gwenda Davies,
Cae Glas,
8 Tal y Cae, Tregarth
☎ 601062

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192

Dathlu

Llongyfarchiadau i Carys a David O'Connor, Godre'r Parc, Sling, a ddathlodd eu priodas ruddem ar Fawrth 17. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn gyda amryw o deuluoedd a gollodd rai annwyl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Byddwn yn meddwl amdanoch i gyd yn ystod y cyfnod trist hwn yn eich bywyd.

Bu farw Bryan Llewelyn Williams, 22 Tal y Cae yn Ysbyty Gwynedd ac yntau'n 75 mlwydd oed. Roedd yn briod â Judith ac yn 'Pops' i Hannah a'i phriod Stephen. Yn enedigol o ardal Llanrwst by Bryan yn gyn Reolwr Banc gyda'r Midland/HSBC. Bu ei angladd yn Eglwys y Santes Fair, Biwmares ar Fawrth 16.

Ar yr 8 o Fawrth bu farw Elvris Price Jones, 27 Bro Syr Ifor, Tregarth yn 80 mlwydd oed. Priod y diweddar Stanley a mam Margaret ac Ian, Dwynwen a Keith, Rhian a Tegryd, Menna a Frank, Dilwyn a Jan, Dylan a Claire ac yn Nain a Hen-Nain. Roedd hefyd yn chwaer i Dafydd, Hannah Mer, Arnold, Stella a Gwynedd. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Shiloh, Tregarth ar Fawrth 14 a rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent y Gelli.

Yn Ysbyty Gwynedd ar Fawrth 9 yng nghwmni ei deulu bu farw Hugh Lewis Williams, 5 Perth y Paen, Llangefni yn 88 oed. Roedd yn briod â Megan ac yn llysdad i Bryn a Patricia ac yn ffrind agos i Rhian a Ieuan, Samantha, Timothy a Russel ac yn frawd i John. Bu Hugh yn byw am 50 o flynyddoedd yn 11 Maes Ogwen Tregarth a chafodd ei gladdu ym mynwent Eglwys y Gelli ar Fawrth 16.

Yn dawel yng Nghartref Maes Ogwen, Bethesda, gynt o Ty'n Llidiart, Sling, bu farw Ellen Mary Owens a hithau yn 97 mlwydd oed. Roedd yn briod annwyl i'r diweddar George Owens ac yn fam gariadus i Georgie a'i briod Mair ac yn Nain i Arwel, Gareth a'i briod Meinir a Siân ac yn Nain a Hen-nain arbennig. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlogsgfa Bangor ar Fawrth 21.

Dymuna George a Mai Owen a'r teulu ddiolch yn fawr i berthnasau, ffrindiau a chymodogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar o'i cholli. Diolch am y rhoddion tuag at Gronfa mwynderau Plas Ogwen Bethesda, ac i'r trefnwr angladdau Gareth Williams.

Gair o ddiolch

Dymuna Bess a Fred Buckley, Maes Ogwen ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymodogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar o gollu annwyl frawd sef Huw Parry Jones, Dolgarrog (Mynydd Llandygai gynt).

Pwyllgor Apêl Rhiwlas a Phentir

Noson yng nghwmni
Glain Dafydd

Enillydd Gwobr Bryn Terfel
2011

**Nos Wener 20 Ebrill
7.00 pm**

Eglwys Sant Cedol Pentir
Tocynnau £5.00, £3.00 i blant
Am docynnau ffoniwch
Hefin 01248 352890
Cynrig 01248 601318
Neu ar y drws ar y noson

**Elw tuag at Eisteddfod
Genedlaethol yr Urdd, Eryri
2012**

Clwb 100 Canolfan Tregarth Mis Mawrth

41 Goronwy Roberts £15
23 Gwenda Davies £10
40 Sulwen Roberts £ 5

EGLWYS Y SANTES FAIR, Tregarth

Ciniawa Garawys

Diolch yn fawr iwan i'r merched a fu wrthi'n brysur yn darparu cinio yn yr eglwys ar ddydd Iau yn ystod y Garawys, hefyd i bawb a gefnogodd y ciniawa a throï mewn i gymdeithasu.

Te Gwanwyn

Cynhelir Te Gwanwyn yng Nghanolfan Tregarth ar 1 Mai o 2.00 - 4.00 yp. Bydd y stondinau arferol yno, yn ogystal â raffl.

Cydymdeimlad

Ar 9 Mawrth yn dawel yn ei gartref, 10 Vicarage Gardens, Llandudno, bu farw Owen Wyn Owen yn 82 oed. Yn athro wrth ei alwedigaeth, bu'n Ddarllenwr Lleyg yn Nhregarth ac eglwysi'r ardal rai blynyddoedd yn ôl. Bu gwasanaeth yn Eglwys y Gelli ar 15 Mawrth ac yna yn Amlogsgfa Bangor.

Cydymdeimlwn â'i wraig Linda, ei ferch Carol a'i gŵr Dylan, a'i ŵyr Morgan Siôn a hefyd ei chwaer yng nghyfraith Miss Nesta Hughes

Gwellhad

Croesawn Mrs Myra Jones, Erw Faen yn ôl i'r eglwys ar ôl ei anhwylder diweddar.

Clwb Cant Y Gelli

Mis Chwefror

£20 40 Owen T Jones
£10 31 Parchedig Lynne Perry
£10 42 Keith Irons
£ 5 110 Olive Davies

Mis Mawrth

£20 20 Mrs Mair Owen
£10 10 Chris Perry
£10 15 Pamela Smith
£ 5 09 Margaret Pritchard

CAPEL SHILOH

Gwasanaethau

Yr Ysgol Sul am 10.30 y bore
Y Gwasanaethau eraill am 5.30

Ebrill

15 Richard Lloyd Jones, Bethel
22 Trefninat Lleol
29 R.J.H. Griffiths [Machraeth]

Mai

06 Parch. Gwynfor Williams
13 10.30 Oedfa Deulu
20 Trefniant Lleol

Cynhaliwyd Oedfa Deulu yn Shiloh ar fore Sul, 18 Mawrth yng ngofal plant a ieuenctid yr Ysgol Sul. Cafwyd cwmni Mr Gareth Roberts o Fangor a ddaeth i roi sgwrs ar 'Gyfeillion.'

Merched y Wawr, Cangen Tregarth

Jên Temple Morris a Iona Rhys Cooke oedd yn gyfrifol am drefnu Noson Merched y Wawr cangen Tregarth, Nos Lun, 2 Ebrill yn Ffestri Capel Shiloh. Y gŵr gwâdd oedd Chris Jones fu'n sôn am ei fusnes tyfu a gwerthu llysiau, sef 'Tatws Bryn'. Yn Llanllechid mae ei fferm, sef Bryn Hafod-y-wern, ac yno mae'n tyfu dros hanner cant o amrywiol lysiau. Cafodd ei dad, y diweddar Ken Bryn lawer o ddylanwad ar y mab a gyda'r cynghorion gwerthfawr a dderbyniodd ganddo mae gan Chris fusnes arbennig o llwyddiannus a llewyrchus. Nid yn unig mae'n gwneud y gwaith caled o blannu a thrin yr hadau a'r llysiau ond hefyd, bob dydd Iau mae ganddo stondin ym Marchnad Llangefni ac wrth gwrs mae hefyd yn gwerthu'r cynnyrch ym Marchnad Ffermwy'r Bethesda bob mis. Gyda'r nos ar Nos Iau caiff gyfle i alw mewn rhannau o Fangor, Talybont, Tregarth, Brynrefail, Rhiwlas a Mynydd Llandygai i werthu'r llysiau ac ym Methesda ar Ddydd Gwener.

Mae'r busnes wedi ehangu'n arw yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi cyrraedd mor bell a Marchnad Dolgellau ar y Sul. Diolchwyd i Chris am roi noson arbennig o ddifyr a chafodd pawb gyfle i flasau rhai o lysiau fferm y Bryn wedi i bob aelod gael pecyn i fynd adre. Dylem i gyd fod yn hynod o ddiolchgar am y gwasanaeth hwn a cheisio ei gefnogi hyd eithaf ein gallu. Mae cymaint o bwyslais y dyddiau yma ar fwyta'n iach ac ar fwyta bwydydd sydd wedi eu tyfu'n lleol.

Mwynhawyd paned i ddiweddu'r noson, a baratowyd gan Angharad Williams ac Olwen Jones. Enillydd y gystadlaeth gwaith llaw oedd Beryl Hughes, Meini Gleision.

Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf ar 7 Mai pan ddaw J. Richard Jones, Llangefni i siarad ar y testun 'Y Bardd Cocos.'

Croeso cynnes iawn i Ffestri Capel Shiloh am 7.00 o'r gloch.

Mynydd Llandygái

Theta Owen.

Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Pen-blwydd

Mae Lynda Davies, 7 Arafon yn dathlu ei phen-blwydd yn 40 ar 20 Ebrill. Dymuniadau gorau iddi gan Leia, Lois, Lauren, Mam a Dad, Sheila, Max, Dion, Siôn, Llion, Kevin, Nerys a Llŷr.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu Mr Huw Parry, Dolgarrog, ei chwaer Bessie yn Nhregerth a'r teulu i gyd yma ym Mynydd. Bydd colled fawr ar ei ôl.

Diolch

Dymuna Megan a Dei Parry ddiolch o galon i ffrindiau a'r teulu am y blodau, yr anrhegion a'r cardiau ar achlysur dathlu eu Priodas Ddiemwnt (60 o flynyddoedd).

Mae Dei yn diolch hefyd am bob caredigrwydd a galwadau ffôn ac ati ar ôl cael damwain a thorri ei fraich. Diolch yn fawr.

Gŵyl y Mynydd

Cadwch y diwrnod yn rhydd. Bydd Gŵyl y Mynydd ar 4 Mehefin, gerddi ar agor, stondinau a throï pren. Bydd yr eglwys ar agor gyda lluniaeth a stondinau. Dewch i fwynhau byddwn yn falch o'ch gweld.

Damwain

Anfonwn ein cofion at Iwan Morris a gafodd ddamwain wrth chwarae pêl-droed. Torrodd ei goes yn ddrwg iawn ond gobeithio y caiff wellhad buan.

Gair o ddiolch

Dymuna Eilir, Tony, Linda, Kevin a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl sef Huw Parry Jones, Dolgarrog, (Mynydd Llandygái gynt). Mae'r teulu yn ddyledus am haelioni pawb wrth iddynt dderbyn £1,200 tuag at yr hosbis yn Llandudno. Diolch i'r Parch. Dewi T. Morris am ei wasanaeth urddasol a theimladwy, i Mr Wyn Williams am ei wasanaeth ar yr organ ac i Stephen Jones yr ymgymerwr am ei drefniadau trylwyr a charedig.

NEUADD GOFFA MYNYDD LLANDYGAÍ

BORE COFFI

Sadwrn, 21 Ebrill 2012
10.30 – 12.00

Elw tuag at Apêl Tregarth a
Mynydd Llandygái
Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Ebrill 15: 9.45 Boreol Weddi
Ebrill 22: 9.45 Cymun Bendigaid
Ebrill 29: 10.00 Cymun Teuluol yn Eglwys
Crist, Glanogwen. (Yr unig wasanaeth yn y
plwyf y Sul Hwn)
Mai 06: 9.45 Gwasanaeth Teuluol.
Mai 13: 9.45 Cymun Teuluol
Mai 20: 9.45 Boreol Weddi.

Carem ddiolch i bawb a gefnogodd y "Ffair Basg" ddiwedd Ebrill. Enillwyd y Bocs Ffrwythau gan Mrs. Barbara Roberts, Llwybr-main.

Trist oedd clywed fore Sul na fydd y Ficer, y Parchedig Nia Williams, yn ein gwasanaethu yn y Plwyf hwn ar ôl diwedd mis Mai. Diolchwn iddi am ei holl waith dros y pedair blynedd ddiwethaf a dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd yn y Ddeoniaeth.

Cofiw'n am bawb sydd yn sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

CAFFI SEREN

BETHESDA

Ffon: 01248 600661

Oriau agor

Llun i Gwener: 8.00 tan 4.00
Dydd Sadwrn: 8.00 tan 1.00

Pryd arbennig (Special) bob dydd
Cinio rhost bob dydd Gwener
Bwyd i'w fwyta allan

Croeso cynnes gan Sue a'r staff

**Tony
Twomey**

**Peintiwr ac
Addurnwr
Trwyddedig**

**Gwneir unrhyw waith,
mewnol ac allanol.**

**Ffôn Symudol:
07796 156829
Tŷ: 01248 602039**



Côr Meibion y Penrhyn

Corby

Bu'r côr ar daith i dref Corby yn Swydd Northampton yn ystod penwythnos olaf Mis Mawrth a hynny ar wahoddiad côr meibion y dref honno. Cynhaliwyd y cyngerdd mewn neuadd ar gyrion y dref a daeth nifer sylweddol o'r trigolion lleol allan i gefnogi'r digwyddiad. Bu'r côr yn cydganu rhai darnau gyda'r côr lleol a rhoddwyd derbyniad brwd i raglen Côr y Penrhyn. Bydd Côr Meibion Corby yn dod i Landudno i rannu llwyfan gyda ni yn ystod y flwyddyn nesaf. Edrychwn ymlaen at gael eu cyfarfod unwaith eto.

Cyngerdd yn y Feniw, Llandudno

Nos Sul 1 Ebrill roedd y côr yn canu mewn cyngerdd elusennol yn Y Feniw yn Llandudno. Perfformiad ar fyr rybudd oedd hwn ond llwyddodd y côr i wneud enw da iddo'i hun ar waethaf y ffaith bod nifer o'r aelodau yn absennol oherwydd gwaeledd a galwadau eraill.

Newid lle ymarfer

Ar ôl blynyddoedd o gyfarfod yn Ysgol Penybryn i ymarfer ar nosweithiau Llun mae'r côr wedi penderfynu symud lleoliad yr ymarferion i Glwb Criced a Bowlio Bethesda. Nid yw'r amodau yn Ysgol Penybryn bellach yn cwrdd ag anghenion y côr gan fod rhaid cael hyblygrwydd ynghylch hyd yr ymarferion ac mae'r pwyllgor cerdd a'r arweinydd yn teimlo bod canu mewn lle gydag awyrgylch acwstig llai ffafriol yn mynd i fod o help i ddatblygiad lleisiol a seinyddol y côr. Bydd hyn yn golygu bod dwy gymdeithas gymunedol yn y fro yn gallu manteisio ar adnoddau ei gilydd a thrwy hynny yn mynd i fod o gymorth iddyn nhw oroesi.

SAMARIAID

Allech chi fod yn Samariad?

Hoffai'r Samariaid ym Mangor eich gwahodd i'r Diwrnod Agored a gynhelir yng Nghanolfan y Samariaid, 5A Llys Onnen, Parc Menai.
Dydd Sadwrn 17eg Mawrth
Rhng 10am a 3pm

Am ragor o fanylion e-bostiwch bangorsamaritans@yahoo.co.uk
neu ffonio 01248 674985 rhng 3pm a 5pm (Llun-Sadwrn)

Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod

Nyth y Gân

Yr Ymwelydd

Ar fore braf o Ebrill mwyn
A'r gwanwyn teg yn gwenu,
Bu'n gwisgo'i ddillad ar y brig
I'r goedwig yno ganu,
A diolch iddo wnaeth y côr
Am drysor fu'n ei rannu.

Mor falch yr ydoedd pawb o'i rodd,
Deffrôdd y trymaf gysgwr,
Ac aros iddo ddod i'w dir
Yn hir y bu y ffermwr;
Erioed ni fethodd ar ei daith
Na chwaith ymweld â'r garddwr.

Dosbarth Meithrin Ysgol Llanllechid

Aeth yr enfys i'r feithrinfa ag awch
Ar gychwyn eu gyrfa,
A gwelwn hynod floda'n
Llwyddo dan y dwylo da.

Cau Siop John a Mair

Mae inni nawr mewn hanes, a'i heddiw
Heb nwyddau na neges;
Ei bri fu oes yr hen bres
Yn gweini yno'n gynnes.

Lamp y Bugail amser Wyna

Yn y nos y mae'i heisiau allan
Yn y gwyl am oriau
I'w arwain hyd yr erwau
I fan y fref a hi'n frau.

Dafydd Morris

Hen Eglwys Tansgafell

Mor wag yw'r benglog dywyll
A'r gwynt yn sbianu'i wawd,
A chri eneidiau gorffwyll
Yn oeri gwaed a chnawd;
Mor hir yw'r cwsgr tragwyddol
Wrth allor fud y llan,
Ac ias yr oriau hwyrol
Yn freuddwyd dros y fan.

Nid oes ond llygad lloerig
Yn 'ffeirad yno mwy,
A'i wae hyd ruddiau'r cerrig
Yn gwarchod plant y plwy';
A hen dylluan ffyddlon
O'i chlwyd rhwng brigau'r yw,
Yw'r unig glochydd eon
Rydd fraw yng nghlustiau'r byw.

'Ddaw neb ond Afon Ogwen
A'i chàn yn breliwd lleddf
I wrando gyda'r ywen
Ar Lith a Dengair Deddf;
A'r unig siant bryd gosber
A glywir dros y cwm
Yw'r slum a'u gwichian ofer
Hyd furiau'r adfail llwm.

Goronwy Wyn Owen

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Capeli ac Eglwysi Dyffryn Ogwen – Rhan 1

Cyflwynaf i chi'r tro hwn y gyntaf o dair rhestr o'r capeli a fu yn Nyffryn Ogwen Cdrod y tri chan mlynedd diwethaf, fwy neu lai. Pwysleisiaf ar y dechrau fel hyn fod angen gwneud llawer mwy o waith eto ar hanes yr addoldai lleol, ac annigonol ac arwynebol iawn fu fy ymchwil yn y maes pwysig hwn (fel y dengys ambell ddyddiad coll a phrinder ffeithiau!). Ni wnaaf yma ond nodi enw'r capel ynghyd â dyddiad ei godi, a'i ailgodi mewn rhai achosion, ynghyd ag ambell sylw perthnasol arall ond mae'n rhaid i mi ychwanegu na allaf fod yn sicr a yw pob dyddiad yn gwbl gywir. Dw i'n ddyledus i ambell un, megis Helen Jones, Mynydd Llandygái; Anwen Thomas, Pentir; John Huw Evans, Rhiwlas; a Gwilym Williams, Bethesda, am ateb rhai o'm hymholiadau, gan lenwi bwlch neu ddau yma ac acw. Pe bai unrhyw un o ddarlennwyr Llais Ogwan â gwybodaeth ychwanegol, neu ffeithiau gwahanol, byddwn yn falch iawn o glywed oddi wrthynt.

A - B

Capel yr Achub (Rachub) (MC). Caewyd ym 1816 ac fe'i dymchwelwyd ym 1838.
Amara (Mynydd Llandygái) (A). Agorwyd ym 1846, helaethwyd ym 1853 ac eto ym 1868. Cynhaliwyd y gwasanaeth olaf yn y Capel ar Fedi 26 2004. Dymchwelwyd yr adeilad tua 2006 a bellach saif tri thy ar y safle. Parheir i gynnal gwasanaethau unwaith y mis yn Eglwys St Ann a St Mair, Mynydd Llandygái.

Bethania (Bethesda) (A). Agorwyd ym 1885/86. Deil yn agored.

Bethel (Rachub) (B). Agorwyd ym 1885. Deil yn agored.

Bethel (Ty'n y Maes) (MC). Codwyd ym 1843 (er i ddyddiad arall, sef 1838, gael ei grybwyll wrthyf). Ni wn ddyddiad ei gau ond mae'n stiwdio i'r arlunydd David Woodford ers blynyddoedd bellach.

Capel Bethesda (A). Codwyd ym 1820, ailgodwyd ym 1828 a chredaf iddo gael ei weddnewid, onid ei drydyddgodi, tua 1873. Daeth yr Achos i ben ym 1988 a bu'r adeilad yn wag nes ei droi'n fflatiau ymhen ychydig flynyddoedd wedyn. Enwyd y fflatiau'n 'Arafa Don' ar ôl un o donau R. S. Hughes, y cyfansoddwr adnabyddus a fu'n organydd y capel am rai blynyddoedd.

Bethlehem (Tal-y-bont) (A). Agorwyd ym 1825 ac ailgodwyd ym 1860. Deil yn agored.

Bethmaaca (Glasinfryn) (A). Agorwyd ym 1836, ailgodwyd ym 1865 a thrydyddgodiwyd ym 1898.

Bryn-teg (Bethesda) (MC). Agorwyd ym 1864, helaethwyd yn 1878. Caewyd ym 1988 a throwyd yr adeilad yn dy (neu'n fflatiau?)

Byddin yr Iachawdwriaeth. Dechreuwyd yr Achos ym 1888. Ni wn pryd y peidiodd â

chael ei ddefnyddio gan y Fyddin (a byddwn yn falch o gael unrhyw wybodaeth ynghylch hynny) ond 'Yr Hen Neuadd' (ac nid 'Salvation Army') sydd ar frig yr adeilad ers rhai blynyddoedd. Credaf mai rhyw sefyliad o Loegr sy'n defnyddio'r adeilad y dyddiau hyn.

C - CH

Cae Gwigin (Tal-y-bont) (A). Agorwyd tua 1874-5. Rhagflaenydd Capel Bethlehem.

Caechwarel. Capel a berthynai i'r Methodistiaid Calfinaidd. Nid oes gennyf ragor o wybodaeth amdano.

Caersalem (Bethesda) (B). Dechreuwyd yr Achos yno tua 1834. Ddechrau'r 1850au, cynhaliwyd gwasanaethau yno gan Saint y Dyddiau Diwethaf (y Mormoniaid). Yn 1856, symudodd y Bedyddwyr oddi yno i hen Siop Tŷ Mawr ac yna i Gapel y Tabernacl. Trowyd yr adeilad yn Rhifau 10 ac 11 Pen-y-graig, Bethesda.

Carmel (Rachub) (A). Agorwyd ym 1839 ac ailgodwyd ym 1860. Deil yn agored.

Carneddi (MC). Agorwyd ym 1816, ailgodwyd ym 1827/28 a thrydyddgodiwyd ym 1868. Caeodd ym 1993 a dymchwelwyd y Capel, y festri a'r Tŷ Capel, Heddiw stad tai Maes yr Athro (i goffâu Syr Idris Foster) sydd ar y safle.

Cororion (Tregarth) (A). Agorwyd tua 1813 a chaewyd tua 1825.

Chwarel Goch (Sling) (A). Agorwyd ym 1877, caewyd ym 1987 a throwyd yn dy.

Bydd dwy restr arall o addoldai yn dilyn yn rhifynnau nesaf Llais Ogwan.

I'w barhau



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

Yr Home Guard



HOME GUARD BETHESDA 1943

Yn dilyn cyhoeddi llun o'r Home Guard yn rhifyn Mawrth derbyniwyd yr wybodaeth isod oddi wrth Mr Maldwyn Hughes o Fangor. Nid yw'r rhestr yn gyflawn o dipyn ond dyma'r enwau mae Mr Hughes yn eu cofio.

Rhes isaf:

Yr ail o'r dde yw Gordon David Dixon un ai o Res Douglas neu Ffordd Ffrydlas. Nid yw Mr Hughes yn cofio pwy oedd y gweddill yn y rhes hon.

Yr ail res:

Rifau 1 i 4 yn anhysbys ond y 5ed o'r dde yw William Charles Jones, Sarsiant oedd yn byw yn Rhes Penrhyn a brawd i'r diweddar Glyn Jones (Saer). Y 6ed yw David Llywelyn, Adwy'r Nant, oedd yn Liffenant neu'n Gapten. Roedd o'n brif glerc yn Chwarel y Penrhyn ac yn chwarae fel cefnwr i dîm peldroed Bethesda Vics. 7fed; Cred Maldwyn Hughes fod y gŵr hwn yn gweithio yn Swyddfa'r Chwarel. Nid yw'n cofio ei enw. 8fed; Yr un modd gyda'r gŵr hwn oedd yn dal swydd "Company Sergeant Major" ac roedd o'n gweithio mewn siop ddillad yn Rhes Penrhyn. 10fed; Emmanuel Parry, Tan y Foel oedd yn gorporeal ac yn gweithio yn swyddfa'r chwarel.

Y drydedd res

Rhifau 1 i 3 yn anhysbys ond rhif 4 yw Robert Ffranco Roberts, 1 Adwy'r Nant a oedd yn fforman yn adran drydanol Cyngor Dinesig Bethesda. Rhif 5; Richard Pryce Jones, Ffordd Ffrydlas ac yn wreiddiol o ardal Glyn Ceiriog. Roedd o'n Lance Corporal ac yn gweithio yn y chwarel. Rhifau 6 a 7 yn anhysbys ond rhif 8 yw Herbert Evans, Henbarc, chwarelwr a arferai chwarae yn y gôl i dîm peldroed Vics Bethesda.

Y rhes uchaf:

Rhifau 1 i 4 yn anhysbys ond cred Mr Hughes mai rhif 5 yw "Baden?" Thomas, Bryntirion. Credir hefyd ei fod yn gweithio fel gyrrwr i Dr. Gruffydd, Victoria Place, a'i fod yn frawd hynaf i'r diweddar Oscar Thomas. Rhifau 6 i 10 yn anhysbys.

Diolch i Mr Maldwyn Hughes am yr wybodaeth. Efallai bod eraill a allai lenwi'r bylchau? Anfonwch air i'r Llais os gallwch chi..

Y LLANGOLLEN BETHESDA (01248)600491

BWYDLEN NEWYDD

Dydd Llun	5.00 - 8.30
Dydd Mawrth	12.00 -2.00/ 5.00-8.30
Dydd Mercher	12.00 -2.00/ 5.00-8.30
Dydd Iau	12.00-2.00/ 5.00-8.30
Dydd Gwener	12.00-2.00/ 5.00-8.30
Dydd Sadwrn	12.00-2.00/ 5.00-8.30
Dydd Sul	12.00-2.00



NOSWEITHIAU CYRI A PHEINT A
PIZZA A PHEINT YN DOD YN FUAN

CERDDORIAETH FYW



GALWCH AM
FANYLION



Côr Cyntaf i'r Felin



Mae Côr Cyntaf i'r Felin wedi bod yn brysur ers dechrau'r flwyddyn.

Ar Fawrth y cyntaf eleni, canodd y côr cymysg pedwar llais mewn cyngerdd arbennig yng Ngwesty'r Bwcle ym Mwymares, Sir Fôn fel rhan o'u dathliadau Dydd Gŵyl Ddewi.

Dyma un o nifer o gyngherddau mae'r côr yn cymryd rhan ynddo yn ystod y misoedd nesaf. Maent hefyd yn ymarfer ar gyfer cystadlu yn Eisteddfod Môn eleni.

Mae cyfeilyddes amryddawn y côr wedi bod yn brysur iawn hefyd. Bu Lois Eifion, ar ôl beirniadu mewn Eisteddfodau Cylch yr ardal yn canu, wrth chwarae y piano, yng nghystadleuaeth genedlaethol 'Cân i Gymru' a ddarlledwyd ar S4C ar Fawrth y 4ydd.

Meddai Lois, "Er i'r profiad fod yn gwbl newydd i mi, mi wnes i fwynhau'n arw. Roeddwn yn falch mod i wedi cael y cyfle i wneud rhywbeth hollol wahanol i gyfeilio (am 'change'!) a dwi'n gobeithio y daw mwy o gyfleon tebyg yn y dyfodol."

Meddai Guto Pryderi Puw, cyfansoddwr ac arweinydd y côr, "Mae hi bob amser yn braf cael cerddorion sy'n medru troi eu dwylo at unrhyw beth i gefnogi gwaith y côr, o fedru cyfeilio rhai o'r darnau mwyaf cymhleth i ganu gyda'r Sopranos, pan fo'r angen. Cerddor felly ydi Lois. Ond wedi nos Sul diwethaf bydd rhaid i ni fod yn ofalus i ddal gafael ynddi, rhag ofn iddi ddechrau gyrfa fel canwr pop!"

Os hoffech chi i Gôr Cyntaf i'r Felin berfformio mewn noson gymdeithasol, neu os hoffech ymuno a'r côr, gan ein bod yn chwilio am aelodau newydd ar hyn o bryd – yn arbennig felly tenoriaid a baswyr, cysylltwch â:
Guto Puw, yr arweinydd ar 07816474218 neu
Llinos Williams, Cadeirydd y Côr ar 07776440596.

Mae'r côr yn ymarfer rhwng 7.30 a 9pm ar nosweithiau Mercher yng Nghapel Bethania, Y Felinheli.

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

**electricals
andrew duggan**

Atgyweiriadau teledu a fideo,
offer sain, derbynwyr lloeren.
Hefyd gwerthiant a gwasanaeth

38 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AN
Ffôn/Ffacs 01248 602584

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyo ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)**

Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.

Ffoniwch
01248 602550

e-bost : karena@agoriad.org.uk

**Gorsaf betrol
BERAN**

Deiniolen
Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor bob dydd 24/7

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau newydd
Cardiau pen-blwydd • Melysion
Tocynnau loteri
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer
trydan, nwy, ffonau symudol,
trwyddedau teledu ayyb

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwllans Gogledd Cymru

Meithrin menter gymdeithasol leol

Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

cysylltwch â

Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851. Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

**“J.R.”**

SGAFFALDWYR

Yr Iard, Ffordd Stesion
Bethesda

Ffôn: (01248) 601754

Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

**MODURDY
FFRYDLAS**

Profion
M.O.T.

Perchenogion
I.D.Hughes ac A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723

Ffacs: 605068

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ ☐ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael

Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth

Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda

☎ 601031

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartïon * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00
01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

MODURON

PANDY

Cyf.

Tregarth

Gwasanaeth ♦ Atgyweirio
Canolfan 'Unipart'
M.O.T.

Ffôn: 01248 600619 (dydd)

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith felt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

BYSUS

D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Croesair Ebrill 2012

AR DRAWS

1. Pedr oedd y cyntaf, yn ôl traddodiad (3)
3. Cerdd enwog am Gymru, ond doedd dim ots gan y bardd amdani! (3)
5. Dod a rhai o'r un fryd at ei gilydd; ----- at ei debyg (5)
8. Rhosyn enwog y Beibl (5)
9. Roedd newyddiadurwr a darlledwr enwog o Eifionydd yn mynd drosti'n aml (7)
10. Mae diwedd mawr yn llai yn creu un o'r bonedd pendefig! (4)
11. Hwyl gânt gadair, coron a medal yn yr Eisteddfod Genedlaethol. (8)
13. Yn sŵn "bidinc" y gwneid yr hen grefft yma er stalwm meddai'r hwiangerdd (6)
14. Os yw golau'r haul y tu ôl i'r torrwr gwrych cewch hwn, a nofel hefyd (6)
17. Erin a Hibernia yw enwau eraill arni (4,4)
19. Y Twrci Tena (4)
22. Os yw dy gof anodd wedi drysu, mi fyddi'n anfodlon iawn (7)
23. Mae rhai yn hoffi eu cig moch yn -----, nes ei fod yn galed a brau (5)
24. Elin Fflur oedd yn cyflwyno'r gyfres gerddorol yma ar S4C (5)
25. Heb hon byddem wedi gorfod cael nawddsant arall (3)
26. Un acharn ac un y llychau; mae'r ddau yn Sir Gaerfyrddin (3)

3. Ai dyma amser yr 'hen blant bach' i ganu? (4)
4. Ar y dechrau roedd ganddo ef efail drwg iawn yn chwedl yr ail gainc (6)
5. Yma mae un o ysbytai mwyaf Cymru, capel mwyaf Cymru ac un o gorau meibion enwocaf y byd (8)
6. Ewch yn ôl i'r twb; mae lle i gadw bwyd a diod ynddo (5)
7. Glynau a sugno, - nodweddion amlycaf y creaduriaid bach yma (7)
12. Ceir oel newydd o'r goeden yma'n gyson (8)
13. Ar dipyn o ddryswch mae'r deyrnas yma'n llawer llai nag y bu (7)
15. A gawn ni atgof o'r hen grefft-wyr a fu'n 13 Ar Draws? (7)
16. Arwyddlun cwmni olew enwog (6)
18. Sut rai oedd y Dyniadon Hirfelyn Tesog? (5)
20. Os am fynd i fyny yn y byd, dyma'r wlad i fynd iddi 'Dewch chi ddim uwch! (5)
21. Geni planhigyn (4)


ATEBION CROESAIR MAWRTH 2012

- AR DRAWS** 1. Ahab; 4. Guto; 8. Gwych; 9. Archddiacon; 11. Fandal; 13. Llosgiad; 15. Tra, dau; 16. Nos Ola; 18. Sgadan; 20. Digion; 22. Donegal; 23. Degawd; 25. Yw na'r lili; 26. Llanw; 27. I ddod; 28. Glud.

I LAWR

1. Er mwyn cael digonedd o 23 Ar Draws rhaid gwneud hyn i'r anifail (5)
2. Dim amser i gael cinio tri chwrs. Rhaid i hwn wneud y tro (7)

- I LAWR** 2. Hwrdd; 3. Beddrod; 4. Gwasgu; 5. Trofan; 6. Chwedlonol; 7. Uchel; 10. Nadolig; 12. Y tes; 13. Llafarganu; 14. Safadwy; 17. Abid; 19. Nodwydd; 20. Defaid; 21. Gaflog; 23. Dallu; 24. Plau.



Wel wir, pawb ond dau yn hollol gywir y tro hwn - ysgaden (sgadan), enw arall am bennog, yw'r pysgodyn sy'n rhoi ei enw i'r bae ym Mhen Llŷn. Dwi'n dechrau amau fod y croeseiriau yn mynd yn rhy hawdd! Tybed? Enw Jean Vaughan Jones, 12 Hafod Lon, Rhiwlas, LL57 4GD ddaeth allan gyntaf o'r het ac iddi hi yr aiff y wobwr y mis yma. Llongyfarchiadau ichi, a phob clod am atebion cywir i'r canlynol hefyd: Doris Shaw, Bangor; E.E.Roberts, Llanberis; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Gareth a Sara Oliver, Rosemary Williams, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rita Bullock, Bethesda; Emrys Griffiths,

Rhosgadfan; Alwena Tomos, Talybont; Heulwen Evans, Dilys Parry, Rhiwlas; John a Meirwen Hughes, Abergele.

Atebion erbyn dydd Mercher 2 Mai i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

CHWILAIR MIS EBRILL

Siop W.E. Jones

A	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U	I
S	V	S	S	S	N	E	U	A	D	D	O	G	W	E	N	H	E	I	M
G	V	H	M	E	W	D	W	H	U	Z	M	X	V	A	D	D	N	A	P
A	A	D	D	E	N	Y	L	M	U	A	D	G	E	D	E	W	H	C	U
Q	U	T	E	M	S	O	D	O	F	R	P	Y	Q	Z	G	R	B	H	C
U	M	W	O	B	I	N	J	D	O	Y	R	I	A	S	Z	U	Y	T	F
D	X	U	P	G	R	D	W	N	O	R	H	C	Q	H	W	E	S	H	O
Y	E	E	G	E	S	I	P	O	I	G	M	H	E	P	T	T	U	C	B
B	C	S	U	U	Y	L	M	J	W	G	P	L	T	M	I	S	V	V	
D	C	B	E	A	B	F	P	L	U	R	D	O	F	O	G	J	A	V	I
I	R	R	X	N	D	I	M	S	H	P	T	E	S	T	O	S	R	K	O
P	W	R	C	M	O	N	K	C	A	B	W	O	M	O	R	C	R	X	V
R	Y	H	S	T	M	J	U	R	E	H	F	A	Y	A	D	J	I	D	Z
H	B	C	W	O	S	C	N	M	R	A	T	I	N	X	I	N	V	I	L
X	J	J	M	H	B	W	T	Y	I	E	X	I	M	N	D	L	A	X	K
F	U	P	C	Q	T	Y	O	I	W	D	L	F	E	E	U	R	L	Z	Q
R	S	E	N	O	J	R	I	A	M	N	U	O	C	D	T	D	G	I	W
S	L	Z	E	B	E	A	W	J	K	J	H	A	C	L	M	N	L	R	W
V	O	G	J	P	W	P	G	A	S	O	W	O	D	J	J	Y	Q	U	L
F	S	V	T	X	E	U	G	H	M	S	L	Z	J	E	A	F	C	X	I

YN y chwilair hwn mae un o'r atebion wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Gwyddom fod Ll, Ch, Dd, Th ac yn y blaen yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwy fel dwy lythyren ar wahân.) Atebion, gyda'r enw a'r cyfeiriad, os gwelwch yn dda, i André Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Gwynedd LL57 3NW, erbyn **5 Mai** Bydd gwobr o £5.00 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb wedi cael y 12 yn gywir rhoddir y wobwr i'r sawl fydd wedi cael y nifer fwyaf yn gywir.

Siop W. E. Jones Bethesda yw'r testun y mis yma.

Dyma atebion Mawrth:

Brwydr Cefn Pilkem (lle lladdwyd Hedd Wyn); Eisteddfod Bala (lle enilliodd ei gadair cyntaf yn 1907); Ellis Humphrey Evans (enw Hedd Wyn); Fflandrys; Gorffennaf (y mis y'i lladdwyd); Mary Evans (enw ei fam); Penbedw (Birkenhead); Trawsfynydd (lle y ganwyd Hedd Wyn); Un naw un chwech (dechrau ar gyfansoddi ei awdl 'Yr Arwr'); Un wyth wyth saith (blwyddyn ei eni); Y Dyffryn (Awdl); Yr Ysgwrn (ei gartref).

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:

Gwyn Owain Hughes, Ynys Môn; Rosemary Williams, Tregarth; John a Meirwen Hughes, Abergele; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth; Mrs G. Clark, Tregarth; Herbert Griffiths, Tregarth; Eirlys Edwards, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Mair Jones, Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydilas.

Enillwyr Mis Mawrth oedd:

John a Meirwen Hughes Cwellyn, 4 Heol Elwy Abergele LL22 7US

D. E. HUGHES

a'i feibion cyf

YMGYMERWYR ADEILADAU
N.H.B.C.
Gardd Eden, Stryd Fawr,
Rachub, LL57 3HF

Ffôn a Ffacs 01248 602010

SAER I.D.R. JOINERY

Busnes Ifanc Cymraeg Lleol

Am waith saer o safon uchel a
phris diguro
Cysylltwch ag IWAN



07553 977275



01248 602062

Cymwysedig a phrofiadol ym
mhob agwedd ar waith saer.
Dibynadwy a chyfeillgar.

L. Sturrs

a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

Malinda Hayward

(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgwymerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



Tudur Owen, Roberts, Glynne

a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171

torgbethesda@hotmail.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT

SYMUD TŶ

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475

pandv.owen@btinternet.com

Tony Davies

Plymio a Gwresogi

Tŷ Capel Peniel, Llanllechid
Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640

01248 601 466

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



O'r Cyngor

Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfu'r cyngor yng Nghanolfan Glasinfryn gyda'r Cynghorydd Marred Jones yn cadeirio.

ANTUR WAUNFAWR

Cafwyd cyfle i groesawu dau swyddog o'r Antur a ddaeth i sôn am waith ail-gylchu sydd yn cael ei wneud ganddynt. Mae'r antur yn ail-gylchu papurau, plastigion a bocsys ond bellach maent yn casglu tecstiliau a dillad a fyddai'n addas i'w hail-gylchu. Mae ganddynt fanciau casglu dillad mewn rhai mannau cyhoeddus yn ogystal â gwneud casgliad o dŷ i dŷ bob tri mis. Mae'r Antur yn cyflogi 84 o bobl yng Nghaernarfon a'r Waunfawr. Mae siop ail-gylchu dodrefn hefyd wedi agor yn y Warws Werdd, Stad Cibyn, yng Nghaernarfon. Apêl oedd ganddynt i dderbyn gymaint â phosib o gynnyrch at ail-gylchu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf fe gasglwyd dros 230,000 o dunelli o wastraff a fyddai wedi cael ei wasgaru mewn tipiau cyhoeddus. Yn ogystal â hyn mae ganddynt gynllun casglu sbwriel cyfrinachol o Swyddfeydd a ffatrioedd. Gallwch gysylltu gyda'r Antur ar 01286 650721 os am ragor o wybodaeth ynglŷn â'u gweithgareddau. Mae ysgolion Gwynedd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith, ac yn eu tro mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu i ail-gylchu.

ENWAU AR FYSUS PADARN

Holodd y Cyng. Dewi Jones a oedd unrhyw ohebiaeth bellach wedi ei derbyn ynglŷn â'r mater yma. Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn dim. Teimlai'r Cyng. Jones yn anhapus nad yw y Cwmni bysiau yn rhoi parch i'r iaith Gymraeg, mae eu harwyddion oddi mewn i'r bysiau hefyd yn uniaith Saesneg. Nododd enghreifftiau o 'Bangor Town Clock' a 'Hospital', fel esiamplau. 'Roedd yn cydnabod iddo sylwi fod un arwydd yn newid i Ysbyty ond dim ond ar un fws y gwelodd hyn yn digwydd. Cafwyd llythyr gan y Cyng. D.H.James ar yr un trywydd ac 'roedd o yn ychwanegu 'Menai Bridge' at y rhestr. Penderfynwyd holi'r Cyngor Sir ymhellach.

CYFLYMDER AR YR A4244

Mynegwyd siom nad oedd cynrychiolydd o'r Cyngor wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod a drefnwyd gyda Mr Alun Ffred Jones AC, yr Heddlu, Swyddog-ion o Gyngor Gwynedd ac aelodau Parchu Pentir, i drafod y mater yma. Pasiodd y Cyngor i ofyn i'r Clerc ddatgan siom am hyn a nodi yr hoffai'r Cyngor Cymuned gael ei gynrychioli. Gofynnwyd i'r Cyng. Lowri James a fyddai yn mynychu'r cyfarfod.

GWAGIO BINIAU YN Y FYNWENT

Adroddodd y Clerc nad oedd Cyngor Gwynedd wedi cadw at drefn contract a gytunwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Yn sgil hyn 'roedd y Clerc wedi gofyn am leihau y bil a hefyd am sicrywdd y cedwir at y contract y flwyddyn ariannol yma. Y gobaith yw symud y bin mawr allan a chael dau fin bychan yn eu lle a fyddai'n cael eu gwagio bob pythefnos. Mae hyn yn dilyn cŵyn nad yw rhai o'r bobl yn gallu agor y caead trwm sydd ar y bin presennol.

CAIS CYNLLUNIO

Nid oedd gwrthwynebiad i ail gais i ymestyn Bryn Mêl, Caerhun. Yr unig newid oedd yn y geiriad yn ymwneud â'r tir o gwmpas yr eiddo.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod Mawrth yn Neuadd Goffa Mynydd Llandygái gyda'r Cynghorydd Mrs Mair Owen Pierce yn y gadair.

Penderfynwyd cysylltu eto gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r problemau yng ngwaelod Allt Cerrig Llwydion.

Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno i ddarparu gwaharddiadau parcio gerllaw y fynedfa i ystâd Tal y Cae. Credir bod angen rhywbeth hefyd i rwystro camddefnydd pan fo cerbydau'n parcio a difetha'r glaswellt.

Derbyniwyd ffurflenni ynglŷn ag arwydd i ystâd Pendinas a chysylltir â'r Cyngor Sir.

Cafwyd ar ddeall bod canmoliaeth i'r Cyngor Sir am eu gwaith ynglŷn â llifogydd yn Nhan y Bwlch, Mynydd Llandygái. Mae problem arall wedi codi ynglŷn â llifogydd ar Ffordd Hermon.

Parheir i ddwyn sylw at y sbwriel mewn amryw fannau er bod Adran yr Amgylchedd wedi clirio rhai o'r ffyrdd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i drin ffens gerllaw yr ystâd ddiwydiannol.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Mrs E. Frodsham ar y Ganolfan Goffa a gweithgareddau'r pentref a chan y Cynghorydd Mrs M. Leverett ar faterion ynglŷn â llywodraethwyr ysgol Llandygái. Adroddwyd ar Bartneriaeth Ogwen gan y Cynghorydd Mrs Mair Owen ac ar Ganolfan Tregarth gan y Cynghorydd Rhys M. Llwyd.

“Digon yw digon”

o'r dudalen flaen

Meddai: “Rydan ni'n bryderus am iechyd y plant – mae plant yn aml yn sathru baw cŵn ar eu ffordd i'r ysgol ac yn ei gario i'r ystafelloedd dosbarth a'r mannau chwarae.”

Gall dod i gysylltiad â baw cŵn achosi 'toxocariasis' sy'n gallu arwain at salwch difrifol a hyd yn oed ddallineb. Mae plant yn arbennig o agored i niwed yn hyn o beth.

Mae hi'n drosedd peidio â chlirio os ydi ci o dan eich rheolaeth yn baeddu mewn unrhyw lecyn cyhoeddus. Mae troseddwr yn agored i dderbyn cosb benodol o £75.

Meddai'r Cynghorydd Ann Williams sy'n un o aelodau Balchder Bro Ogwen:

“Rydan ni wedi bod yn gweithio efo Tîm Gorfodaeth Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth â'r gymuned leol i leihau problemau baw cŵn yn ardal Bethesda dros y blynyddoedd diwethaf.

“Mae Cyngor Gwynedd wedi dosbarthu miloedd o fagiau baw cŵn am ddim o dan y cynllun Trefi Taclus, yn ogystal â darparu biniau, arwyddion rhybudd a phatrolau gorfodaeth. Ond mae'r broblem yn parhau, ac mewn rhai ardaloedd, mae hi fel petai'n gwaethygu.”

Fel Cyngor mae arnon ni eisiau gweld perchnogion cŵn yn cymryd cyfrifoldeb ac yn glanhau ar ôl eu hanifeiliaid anwes. “I fynd i'r afael â'r broblem yma, mae Wardeiniaid Gorfodaeth y Cyngor, Staff Morwrol a Pharciau Gwledig a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n targedu ardaloedd lle gwyddon ni fod yna broblem ar adegau o'r dydd pan ydan ni'n amau bod y rhai sy'n gyfrifol yn mynd â'u cŵn am dro. Does dim esgus dros beidio â glanhau ar ôl eich ci – mae ymddygiad o'r fath yn gwbl annerbyniol.”

Taclo'r Tacle

I adrodd am broblemau baw ci cysylltwch â Thîm Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd ar 01766 771000 neu ewch i www.gwynedd.gov.uk/gwnewch-o-ar-lein a dewis Adroddwch. Bydd unrhyw wybodaeth rydych yn ei rhoi yn gyfrinachol. Cefnogir Trefi Taclus Gwynedd gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod 2010-11, fe gyflwynodd Tîm Gorfodaeth Cyngor Gwynedd 185 o rybuddion cosb sefydlog am gŵn yn maeddu a throeddau sbwriel.

Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Chwefror aeth cynrychiolwyr o Arfon i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru yn y Rhyll i drafod ffiniau etholaethol seneddol arfaethedig efo cynrychiolwyr o Blaid Lafur Cymru.

Yna, yng nghanol y mis, cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen i dderbyn adroddiadau gan y Cyngor Sir (e.e. llai o dorri gwair mewn ardaloedd 30mya, ysgolion Dyffryn Ogwen ddim yn cael eu had-drefnu tan ar ôl 2020; a'r cynghorau lleol (e.e. y Cynllun Datblygu Lleol a'r praesept am 2012-13). Hefyd penderfynwyd newid cyfarfodydd y gangen i'r bedwaredd nos Fercher yn y mis gyda'r cyfarfod nesaf ar ddiwedd mis Mai.

Cafwyd llythyr gan y Blaid Lafur i ddweud bod pobl sydd wedi bod yn aelodau ers 50 mlynedd neu fwy yn gymwys i gael tystysgrif ac aelodaeth am ddim yn y dyfodol. Penderfynwyd y byddai'r ysgrifennydd yn ymchwilio i'r mater.

Ar ddechrau mis Mawrth cynhaliwyd bore coffi yn Neuadd Ogwen i godi arian at Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2012 a fydd yn cael ei chynnal ym Mharc Glynllifon, Arfon ar ddechrau mis Mehefin. Llwyddwyd i godi dros £280 a hoffai'r gangen ddiolch i'r siopau ac eraill am roi cymaint o wobrau i'r raffl a nwyddau i'r stondin cynnyrch.

Hysbysebwr yn y
Llais: Cysylltwch â:
Neville Hughes
600853

JOHN ROBERTS



Paentiwr
Papurwr
Teilsiw

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995



Posh Paws Tacluso Cŵn

Busnes lleol

Prynhawniau neu Nosweithiau
4.00 - 10.00
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
01248 671382 neu 07935324193
Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

LONDIS BETHESDA

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

Blodau Racca

PENISARWAUN

Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau
- gan hogan o Rachub

Ffôn: 01286 870605

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Ymgymwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Tir a Bro

Gwasanaeth ymgynghorol
cymunedol

Cefnogaeth hyblyg i grwpiau cymunedol
ar unrhyw gam o ddatblygiad prosiect

Am fwy o wybodaeth,
cysylltwch â Mair Watts
Ffôn : 01766 771 382 / 07785 957 511
E-bost : tirabro@btinternet.com

STEPHEN
JONES



TREFNYDD
ANGLADDAU

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn
Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

AUR
CLOGAU

Gostyngiad o
20%

Os nad mewn sêl eisoes



Siswrn Arian
*Trin Gwallt Merched,
dynion a Phlant*

Vivien, Amanda, Jenny a Nicola
GEMWAITH BO-WEN
GWASANAETH TYLLU CLUSTIAU
☎601888

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen


Auschwitz

Ymweliad Mari Gwyn a Lois Angharad

Fe fuom ni'n ymweld ag Auschwitz yng Ngwlad Pwyl, un o'r carcharwerylloedd mwyaf enwog ble roedd Iddewon yn cael eu carcharu gan y Natsïaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cawsom y cyfle arbennig yma diolch i Brosiect LFA, sy'n trefnu ymweliadau yno i fyfyrwyr.

Y rheswm fod y prosiect yma yn bodoli yw er mwyn codi ymwybyddiaeth pawb am y digwyddiad difrifol yma, i barchu'r dioddefwyr ac, yn bwysicach fyth, i sicrhau nad oes unrhyw beth fel yna yn digwydd eto yn y dyfodol. Roedd yn brofiad emosiynol a fydd yn aros yn ein cof am byth.

Y cam cyntaf o'r daith oedd cael cyfarfod yng Nghaerdydd gyda gweddill y myfyrwyr. Aethom mewn grwpiau, a thrafod ein disgwyliadau a'n teimladau am y profiad oedd o'n blaen, er mwyn ein paratoi i allu ymdopi â'r emosiynau fyddai'n dod gyda'r ymweliad. Roedd y cyfarfod yma yn fythgofiadwy, ac yn brofiad arbennig iawn, oherwydd cawsom y cyfle anhygoel i wrando ar oroeswr oedd yn Auschwitz, Leslie Kleinman, yn siarad am ei brofiad yno fel carcharor. Roedd neuadd lawn o 170 ohonom yn hollol ddistaw wrth i Leslie siarad. Roedd yn wreiddiol o Hwngari, yr hynaf o 9 plentyn, a chafodd ei deulu i gyd eu cludo i Auschwitz pan oedd yn 14 oed ar ôl bod yn byw mewn ghetto. Gwnaeth Leslie oroesi diolch i garcharor arall a fynnodd iddo ddweud wrth y Natsïaid ei fod yn 17 oed. Golygai hyn ei fod yn cael mynd i weithio yn y gweryll, yn lle cael ei hel i'r siambr nwy gyda gweddill ei deulu.



Mari a Lois gyda Leslie Kleinman

Dyweddodd Leslie fod 68 aelod o'i deulu wedi mynd i Auschwitz a dim ond 3 ohonynt oedd wedi goroesi, gan ei gynnwys ef ei hun. Roedd yn sioc clywed yr holl bethau roedd wedi mynd drwydynt. Un peth trawiadol iawn oedd pan soniodd am y cyfnod pan gafodd ei ryddhau o'r gweryll a dod i Brydain yn 17 oed, yn 6 troedfedd o daldra, ond yn pwysu 4 stôn yn unig. Roedd yr emosiwn yn ei lais yn wir drawiadol,

ac roedd yn amlwg bod y profiad yn dal i darfu arno hyd heddiw. Torrodd i lawr wrth gofio am ei ymweliad yn ôl i'r gweryll yn 2011 er mwyn iddo allu coffau ei deulu, a llenwyd yr ystafell â chydymdeimlad.

Ar y diwrnod ei hun roedd yn rhaid codi yn gynnar iawn er mwyn mynd i faes awyr Caerdydd erbyn 5.00 y bore a chychwyn ar y daith i Wlad Pwyl, a oedd wedi ei gorchuddio ag eira, a phawb wedi lapio mewn dillad a chotiau trwchus. Ar ôl glanio aethom ar fysus a gwneud ein ffordd at bentref bychan o'r enw Oświęcim. Cyn y rhyfel, roedd dros hanner y boblogaeth yn Iddewig, ac roedd y pentref yn llawn synagogau. Cafodd pob Iddew ei hel i wersylloedd yn ystod y rhyfel, a dim ond 3 a ddychwelodd ar ôl i'r rhyfel orffen. Fe fu Iddew olaf y pentref farw yn 2003. Roedd yn ofnadwy dychmygu'r Iddewon yn dychwelyd adref, dim ond i ddarganfod dieithrwch. Aethom i'r unig synagog oedd yn dal i sefyll, a dysgu am grefydd a thraddodiadau'r Iddewon.

Y cam nesaf oedd mynd i Auschwitz 1. Beth wnaeth ein taro ni fwyaf oedd ei fod mewn lleoliad hollol annisgwyl. Roedd y gweryll fel petai wedi ei rewi mewn amser, ond eto, roedd tref fodern brysur a swllyd yn sefyll reit wrth ei ymyl, a swm ceir yn byrlymu o'n cwmpas. Roedd gweld bywyd yn parhau tu ôl i'r weiren bigog drydanol yn od. Cerddasom o dan y giât adnabyddus 'Daw Gwaith a Rhyddid' gan feddwl am yr holl bobl oedd wedi cael eu gorfodi i ddod yma. Yn y gweryll yma roedd popeth oedd wedi cael ei adael ar ôl gan y Natsïaid, yn cynnwys eiddo personol yr Iddewon, hyd yn oed eu gwallt a'u dillad. Roeddent yn dwmpathau mewn rhesi hir fel sbwriel, ac fe ddaeth y sefyllfa yn fyw i ni. Aethom i mewn i siambr nwy, a gweld y tyllau yn y to ble roedd y nwy yn dod i mewn i'r ystafell. Roedd gan y gweryll yma hefyd gewyll ble roedd Iddewon oedd wedi cael eu cyhuddo o geisio dianc yn cael eu cosbi.

Yna, aethom ar y bws tuag at Auschwitz-Birkenau. Roedd y gweryll yma yn ynysig yng nghanol unman. Y tro hyn, cawsom brofiad o safbwynt Natsi, drwy sefyll yn nhŵr gwarchodwyr y camp, ble roedd golygfa o'r camp cyfan. Dychrynwyd ni gan faint anferthol y camp; nid oeddem yn gallu gweld ei ben draw. Cerddasom ar hyd trac y trên oedd yn ymestyn ar draws y gweryll diddiwedd. Roedd olion ein traed ar yr eira yn ein hatgoffa o'r holl garcharorion oedd wedi cerdded yma. Roedd llawer o'r siambrau nwy yn y gweryll wedi eu dymchwel gan y Natsïaid ar ddiwedd y rhyfel, er mwyn ceisio cuddio'r dystiolaeth. Ond, cafodd un o'r siambrau ei chwalo gan griw o garcharorion a lwyddodd i ddwyn powdr gwn a chreu bom.

Roedd yna ystafell llawn lluniau o ddiodefwyr y gweryll, gydag ychydig o wybodaeth am rai unigolion. Roedd gweld yr holl bobl gwahanol yn ein atgoffa mai unigolion oedd pob un ohonynt, dim criw o bobl yr un fath. Cawsom seremoni coffau yn y gweryll, o dan arweiniad Rabi. Darllenodd gerddi am brofiadau'r diodefwyr i ni, ac yna canodd gân Iddewig oedd yn atseinio drwy'r gweryll llonydd. Roedd wedi tywyllu erbyn hyn, ac fe gafodd pob un ohonom gannwyll fach i'w chynnu, i'w gosod un ar ôl y llall ar y trac trên, er cof am yr holl diodefwyr.

Wrth edrych yn ôl ar y profiad, sylweddolwn erchylltra'r pethau a welsom yno. Nid oeddynt wedi ein taro ar y pryd oherwydd ei fod wedi bod yn gymaint i'w gymryd i mewn. Ond, mae'n brofiad fydd yn aros yn agos at ein calon am byth.

Ysgol Llandygái

Chwaraeon i Bawb

Daeth Imtiaz Nadir, sef pencampwr Taekwondo atom i'r ysgol fel rhan o'r cynllun 'Chwaraeon i Bawb'. Dyma gynllun sydd yn cefnogi cronfa sydd wedi ei sefydlu i helpu athletwyr sydd heb nawdd ariannol i gystadlu yn y Gemau Olympaidd. Cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgaredd ymarfer corff noddedig a chasglwyd dros fil o bunnau tuag at y gronfa. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y fenter.

Adnoddau Techni-Quest

Bu disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn arbrofi, arsylwi ac ymchwilio drwy ddefnyddio offer gwyddonol Techni-Quest.

Thema'r dosbarth y tymor hwn oedd trydan ac roedd yr offer yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o natur grymoedd, magedau ac yn y blaen.

Gwasanaeth y Pasg

Bu disgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig iawn yn yr eglwys leol.

Cawsom wledd yn gwrandao ar berfformiadau amrywiol gan bob dosbarth, a diolch i'r rhieni am ddod i gefnogi'r plant.

Ysgol Rhiwlas

Dydd Gŵyl Ddewi/Diwrnod y Llyfr

Wel, sôn am ddechrau da i'r bore – gwasanaeth wedi ei drefnu a'i gynnal gan blant yr adran iau. Da iawn chi. Roedd rhai o'r plant wedi gwisgo mewn gwisg draddodiadol ac eraill fel cymeriad o lyfr. Roeddynt yn hynod o smart wrth gerdded ar y "cat walk" yn y neuadd!

Amgueddfa Lechi Llanberis

Ymweliad addysgol heb ei hail. Bu'r plant yn gwrando'n astud ac yn holi staff yr amgueddfa yn synhwyrol. Diolch i'r staff am y croeso.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i'r plant a fu'n cystadlu yn ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd eich lleisiau canu ac adrodd yn fendigedig. Llongyfarchiadau i Gwawr am gyrraedd Eisteddfod y Sir yn y gystadleuaeth Cerdd Dant. Llwyddiant hefyd i griw Ciara Dodd yn yr adran Celf a Chrefft – cawsant gyntaf yn yr eisteddfod Cylch am ddam o waith gwehyddu.

Noson o Ddawns

Bu'r adran Iau yn perfformio dawns yn Y Galeri, Caernarfon. Dawns greadigol gyda cherddoriaeth bwerus. Thema'r ddawns oedd 'Taith Anturus' a bu canmoliaeth mawr gan y gynulleidfa i'r perfformiad.

Diogelwch y Ffyrdd

Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn ffodus cael mynd i weld perfformiad sioe Diogelwch y Ffyrdd o'r enw 'Dim ond Eiliad' yn Ysgol Pen-y-bryn. Canmolwyd ymddygiad y plant yn fawr.

Athletau Arfon



Ar ôl ymarfer am beth amser fe aeth tîm o blant i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Athletau Arfon. Cyfle gwych i ddatblygu sgiliau athletau a bod yn rhan o dîm. Dim ond 16 o ysgolion a gymerodd ran felly ymfalchiwn ein bod wedi cael cyfle i cystadlu. Da iawn chi blant am eich hymdrechion.

Dona Direidi



Bu plant adran y babanod a blwyddyn 3 i Ysgol Dyffryn Ogwen ar ddiwedd y tymor. Mae pawb wrthi'n rapio gyda steil ar ôl gweld Dona Direidi. Sioe hwyliog ac egniol

Taith Gerdded Noddedig

Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu taith gerdded noddedig i godi arian i'r ysgol. Bu'n daith egniol gyda rhieni a phlant wedi mwynhau yn fawr. Diolch i'r trefnwyr.

Karate

Diolch i Brent a Sara, hyfforddwyr Karate Llanberis am ddod i siarad efo'r plant. Edrychwn ymlaen i'r sesiwm ymarferol tymor nesaf.

Sports Relief

Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu diwrnod o weithgareddau corfforol ac am goginio cacen i bob plentyn. Casglwyd £75 at yr achos.

Gwasanaeth/Raffl Pasg

Cynhelir gwasanaeth y Pasg ar brynhawn olaf y tymor. Mae'r plant wedi bod wrthi'n galed gyda Mrs Williams yn y gwersi cerdd yn dysgu emynau newydd. Braff oedd clywed y canu soniarus. Llongyfarchodd Mrs Green y plant am eu holl hymdrechion a'u llwyddiannau yn ystod y tymor ac am eu caredigrwydd tuag ati. Hefyd fe drefnwyd raffl a phob plentyn yn awyddus i ennill tedi anferthol a wyau Pasg. Llongyfarchiadau i'r enillwyr.

Ysgol Bodfeurig

Dysgu am Fasnach Deg

Dathlwyd pythefnos Masnach Deg yn yr ysgol gydag wythnos gyfan o weithgareddau oedd yn helpu i godi ymwybyddiaeth pawb yn yr ysgol o beth yw Masnach Deg yn ogystal â'r pethau gellir eu prynu sydd yn Fasnach Deg.

Bu pawb yn brysur yn coginio ar gyfer uchafbwynt y dathlu sef parti! Bu plant y babanod yn creu cacennau creision ýd, blwyddyn 2 a 3 yn creu salad ffirwythau a blynyddoedd 4, 5 a 6 yn coginio cacen siocled – pob un o'r rhain yn cynnwys cynhwysion Masnach Deg!



Dyma'r dosbarth meithrin yn cael picnic Masnach Deg gyda Bili Broga

Ymweliadau

Fel rhan o waith yr adran Iau ar yr ardal leol ac sut mae wedi newid dros y ganrif ddiwethaf fe aethom ar ymweliadau i ddysgu mwy.



Ar 19 Mawrth aethom i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis ac yna i Gastell Penrhyn. Yn gyntaf aethom i'r Amgueddfa Lechi a gwelais olwyn ddŵr mawr mawr! Hefyd gwelais chwarelwr yn hollti a naddu llechi gyda morthwyl a chŷn.

Wedyn aethom i Castell Penrhyn ac aethom ar daith o amgylch y castell! Dysgais lot am y castell, y gweision a'r morynion a'r bobol aeth i aros yn Castell Penrhyn!

Roedd y diwrnod yn hwyl ac dysgais lawer am y gwahaniaeth rhwng bywydau y tlawd a'r cyfoethog!

Twm Morys

Dydd Mawrth a dydd Mercher daeth Twm Morys i ein ysgol i siarad am farddoniaeth a cerddoriaeth. Cawsom ddyddiau arbennig gyda fe a cawsom ysgrifennu cerdd newydd. Ein hoff ran oedd pan oedd o yn chwarae y delyn a canu. Bydd o yn dod yn ôl ar ôl gwyliau'r Pasg i gario'n mlaen gyda'r gwaith ac mae pawb yn edrych ymlaen!

Gan Meical a Josh

Ysgol Llanllechid

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i bawb fu'n rhoi eu gorau yn enw Ysgol Llanllechid yn eisteddfodau'r Urdd yn ddiweddar. Mae ymdrech y plant wedi bod yn rhagorol ac rydym fel staff yn falch iawn o bob un ohonoch.



Dymunwn yn dda yn awr i aelodau'r gan actol a'r cor fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynllifon ddechrau mis Mehefin.

Gweithdy Twm Morys

Fe gafodd disgyblion blwyddyn 6 ddau fore hynod o ddifyr yng nghwmni y bardd Twm Morys. Buont yn trafod un o'i gerddi ac yna yn creu cerdd ddosbarth o dan y teitl 'Pleidlais Baner Cymru'. Edrychwn ymlaen i'w groesawu eto ar ôl gwyliau'r Pasg.

Marathon

Ar ddydd Sul Ebrill 22ain bydd Mr Stephen Jones a Mr Huw Jones yn rhedeg ym marathon Llundain. Maent wedi bod yn codi arian ar gyfer eu helusennau sef 'Get Kids Going' (elusen sydd yn hybu chwaraeon i blant sydd ag anableddau) a 'Meningitis Trust' (elusen sydd yn helpu rhai sydd wedi dioddef llid yr ymennydd). Cawsom ddiwrnod marathon yn Ysgol Llanllechid – gyda rhai yn teithio pellter y marathon o amgylch trac yr iard, ac eraill yn canu eu hoff gân. Llwyddwyd i godi yn agos i £700 a hoffai'r ddau Mr Jones ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth.

Cyngerdd Cymdeithas y Capeli

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn perfformio i aelodau o Gymdeithas y Capeli, Gofalaeth Bro Ogwen yn ddiweddar i ddathlu Gŵyl Ddewi. Cafwyd eitemau amrywiol a safonol gan y plant, - y côr, parti cerdd dant, partion llefaru, y Gân Actol yn ogystal ag unigolion oedd wedi llwyddo i fynd i Eisteddfod Sir yr Urdd, sef Cerys Elen, Mari Fflur, Hanna Morgan, Gwydion Rhys a Mari Baines. Roedd y gynulleidfa wedi eu cyfareddu, ac ar ôl paned, cacen a sgwrs derbyniwyd casgliad sylweddol ganddynt. Diolch yn fawr i bawb.

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i'r holl blant a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Cylch yr Urdd eleni. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus dros ben. Llongyfarchiadau calonogol i'r Gân Actol ar ddod yn fuddugol mewn cystadleuaeth o safon uchel dros ben yn yr Eisteddfod Sir. Llongyfarchiadau hefyd i'r côr dan 12 ar ennill y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth corau dan 12 i ysgolion o dros 150 o blant. Yr un yw ein llongyfarchion i'r Parti Cerdd Dant. Dyfarnwyd y drydedd wobwr iddynt. Da iawn hefyd Gwydion Rhys ar ddod yn drydydd yn yr unawd llinynnol. Da iawn pawb ohonoch a dymuniadau da yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Canlyniadau llawn yn y rhifyn nesaf...

Wythnos Wyddoniaeth

Cafwyd wythnos gyfan o weithgareddau gwyddonol yn ddiweddar ac roedd yr holl ddisgyblion yn cymryd rhan. Roedd pob math o bethau'n digwydd... ffrwydriadau, seiniau, cylchedau trydan, pethau'n hedfan yn ogystal â choginio teisenau coch, piws a gwyrdd! Roedd y plant wedi mwynhau'r cyfan ac yn gallu trafod y gweithgareddau'n dda. Yn ogystal, cafodd pob un o'r dosbarthiadau weithdai ar drydan yn ystod y cyfnod.

Noson Bingo'r Pasg

Cafwyd noson 'Bingo' tu hwnt o llwyddiannus yn y Clwb Criced cyn gwyliau'r Pasg. Roedd y clwb yn orlawn o blant, rhieni, a chyfeillion yn ogystal â nifer helaeth o gynddisgyblion yr ysgol. Cymdeithas y rhieni/athrawon [o dan arweiniad Mrs Iona Robertson a Mrs Lowri Roberts] oedd wedi bod yn weithgar iawn yn trefnu unwaith eto, ac roedd gwobrau lu yn cael eu dosbarthu. Rhaid diolch yn arbennig i'r 'Galwr' sef Mr Dilwyn Owen, a wnaeth ei waith mor broffesiynol ag erioed! Diolch i bawb am gefnogi.

Lon Fach Odro

Do, fe ddaeth yr haul i wenu eto, a'r ŵyn ar y dolydd i brancio....a bu dosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn crwydro Lôn Fach Odro i ddarganfod a chofnodi arwyddion y Gwanwyn. Mae'r coed yn blaguro'n hyfryd erbyn hyn a Llygad Ebrill a Dant y Llew yn tyfu yng nghanol y dail poethion a'r dail tafol. Mae taith ar hyd Lôn Fach Odro yn werth chweil i'r plant gael sylweddoli'n iawn beth yw effaith y tymhorau ar ein hamgylchfyd.

Noswaith o Ddawns

Cafodd dau o grwpiau dawns Ysgol Llanllechid gyfle i berfformio yn y Galeri yng Nghaernarfon mewn 'Noson o Ddawns'. Cafwyd dawns werin hyfryd gan blant Blwyddyn 2, a dawns disgo tu hwnt o gelfydd gan enethod Blwyddyn 6. Diolch yn fawr i Ms Angharad Tomos am hyfforddi'r ddau grŵp.

Ysgol Pen-y-bryn

Dim ond Eiliad

Bu dosbarth Carnedd ac Elidir yn ddigon ffodus i weld y cynhyrchiad 'Dim Ond Eiliad' a gomisiynwyd gan Menter Môn. Drama lwyfan gyffrous a chyfoes gyda neges hynod bwysig sef bod yn ddiogel ar y ffordd oedd hi. Roedd pawb wedi mwynhau ac yn amlwg wedi uniaethu â'r cymeriadau a'r sefyllfaoedd. Diolch yn fawr i'r actorion a'r cwmni am roi gwledd i ni.

Hoci

Aeth dau dîm o blant blwyddyn 6 i Faes Glas am gêm o hoci. Cystadleuaeth hoci 'Activate' ysgolion cynradd Cymru oedd yn cael ei chynnal yna a chafwyd p'nawn difyr gyda'r timau cymysg yn mwynhau'r profiad o chwarae yn erbyn dwy ysgol o Gaernarfon, Bethel a Llanllechid. Diolch i Delwyn Humphreys, Hoci Cymru, am drefnu a diolch i Ysgol Llanllechid am rannu bws gyda ni – ysgolion gwyrdd ar waith!!

Eisteddfod

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch a Sir yr Urdd. Rydym oll yn edrych ymlaen at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ei hun yng Nghlynllifon yn ystod wythnos y Sulgwyn.

Myfyriwr

Rydym yn croesawu Mr Aled Hughes i'n plith, sef darpar-athro o Brifysgol Bangor. Gobeithiwn y gwnewch chi fwynhau'ch cyfnod gyda ni ym Mhen-y-bryn.

PC Dewi Thomas

Hoffem ddiolch i PC Dewi Thomas am ddod atom i drafod diogelwch ffonau symudol a bwlio-cyber. Mae'n bwnc hynod bwysig ac mae'n allweddol bod pawb yn deall pwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth gyda ffonau a gwefannau cymdeithasol.

Ysgol Abercaseg

Dathlu Dydd Gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr

Ar Fawrth y cyntaf, dathlodd holl blant yr ysgol Ddydd Gŵyl Ddewi a Diwrnod y Llyfr drwy wisgo gwisgoedd Cymreig neu fel cymeriadau o lyfrau. Roedd yna blant lliwgar iawn yn Ysgol Abercaseg y diwrnod hwnnw!



Dyma blant Dosbarth Ffrydlas yn eu gwisgoedd lliwgar!

Llwyddiant yn yr Eisteddfod!



Cafodd disgyblion yr ysgol llwyddiant eto eleni gyda'u gwaith celf a chrefft yn Eisteddfod Cylch ac Eisteddfod Sir yr Urdd. Daeth nifer o wobrau 1af, 2il a 3ydd yn ôl i'r ysgol!

Llongyfarchiadau i Neive Atkinson, dosbarth Tryfan, ar ddod yn gyntaf am adrodd i ddysgwyr yn yr Eisteddfod Sir. Pob lwc i ti yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nglynllifon Nieve. Llongyfarchiadau hefyd i bawb a fu'n cystadlu!

Dyma Nieve yn falch iawn o'i thystysgrif!

Gweithdai Barddoni gyda Thwm Morys

Mae Dosbarth Ffrydlas yn gweithio ar brosiect i greu cyflwyniad dramatig ar ffurf cerdd gyda'r Prifardd Twm Mory. Bydd cyfle i rieni'r plant wrando ar berfformiad o'r gwaith gorffenedig yn ddiweddarach yn y flwyddyn



Dyma Twm Morys yn paratoi'r plant ar gyfer y perfformiad!

Parti Dathlu

Ar Ebrill 26ain cyhoeddir adroddiad o arolwg a gafodd yr ysgol yn ddiweddar. Yr un diwrnod, i ddathlu'r ffaith fod yr arolwg wedi bod yn un mor llwyddiannus, cynhelir parti mawreddog yn yr ysgol. Bydd y parti'n cychwyn am 1.30pm a chaiff y plant eu diddanu gan wneuthurwr swigod anferthol a chonsuriwr medrus! Mae croeso i'r plant fydd yn dechrau'n y Dosbarth Meithrin ym Mis Medi ymuno â ni'n y parti!

Croeso'n ôl

Croeso'n ôl i Mrs Yvonne Griffiths a diolch i Miss Mandy Roberts am ei holl waith caled tra'r oedd gyda ni'n yr ysgol!

Rydym yn hapus iawn i dderbyn Cleifion Newydd

DEINTYDDFA
GWYNFRYN
DENTAL PRACTICE



Dr. Dewi Williams Dr. Robert Jones



Canolfan Gosmetig a Mewnblaniadau
BANGOR

Mae Deintyddfa Gwynfryn a Chanolfan Gosmetig a Mewnblaniadau Bangor yn falch iawn o dderbyn cleifion newydd. Yn Neintyddfa Gwynfryn rydym yn cynnig deintyddiaeth gyffredinol ac ataliol a'n nod yw darparu gofal deintyddol eithriadol i bob un o'n cleifion er mwyn sicrhau fod eich ceg yn iach am oes.

Fel estyniad o'r ddeintyddiaeth gyffredinol ac ataliol sydd ar gael yn Neintyddfa Gwynfryn, mae Canolfan Gosmetig a Mewnblaniadau Bangor wedi ymrwmo i ddarparu'r diweddaraf i chi ym maes Deintyddiaeth Gosmetig. Os yw eich dannedd wedi torri, yn wahanedig, yn gam neu wedi newid lliw neu os mai dim ond eisiau gwên hardd, ddeniadol ydych chi, gallwn ni roi'r wên a ddymunwch i chi. Gall ein deintyddion cosmetig tra chymwys eich helpu i benderfynu sut i wella eich gwên, gan eich galluogi i deimlo'n well am y modd yr ydych chi'n edrych.

APWYNTIADAU BRYG AR GAEL AR YR UN DIWRNOD

MAE EIN STAFF YN DDWYIEITHOG

CYFLEUSTERAU CREDYD DI-LOG AR GAEL PAN WNEIR CAIS.
YN AMODOL AR STATWS, BYDD TELERAU AC AMODAU'N BERTHNASOL.

GWEDDNEWID GWÊN
GWYNNU DANNEDD
ARGAENAU
MEWNBLANIADAU
FFRAMIAU DANNEDD CLIR INVISALIGN®
LLENWADAU GWYN
CORONIA PHONTIO
DANNEDD GOSOD COSMETIG
TAWELYDDU
TRINIAETHAU ESTHETEG I'R WYNEB

DEINTYDDFA GWYNFRYN, FFORDD CAERGYBI, BANGOR, GWYNEDD, LL57 2EE
FFÔN: 01248 372 888 WWW.BANGORDENTISTS.CO.UK

Beth sydd ymlaen yn y Dyffryn?

NEUADD OGWEN,
BETHESDA

BOREAU COFFI



21 Ebrill: Ymchwil Canser
28 Ebrill: Capel Jerusalem
05 Mai: Gorffwysfan
12 Mai: Cymorth Cristnogol
19 Mai: Ysgol Sul Jerusalem
26 Mai: Sefydliad y Merched Carneddi

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)



12 Mai
Marchnad Cynnyrch Lleol

Llys Dafydd

10.00 – 2.00

www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market

**Cymanfa Annibynwyr
Dosbarth Bangor a Bethesda**

CYMANFA YSGOLION SUL

Dydd Sul, 20 Mai 2012
yng

Nghapel Pendref, Bangor
Yn y bore am 10.30

Hefyd

CYMANFA GANU

am 5.30 o'r gloch
yng Nghapel Bethlehem,
Talybont

Arweinydd Cerddorol:

Mr Elfed Morgan Morris

Eitemau: Côr Plant Llandygai
(Gwneir casgliad yn y ddau gyfarfod)

Trefnir bws i gyfarfod y bore
Manylion gan Neville Hughes
(Ysgrifennydd) ar 600853

Plaid Cymru, Cangen Dyffryn Ogwen

Cyhoeddi tîm cryf Plaid Cymru yn Nyffryn Ogwen



Y Cyng. Dyfrig Jones (Ward Gerlan a Rachub), Y Cyng. Dafydd Meurig (Ward Arllechwedd), Y Cyng. Dafydd Owen (Ward Tregarth a Mynydd Llandygai), Y Cyng. Ann Williams (Ward Ogwen)

Mae tîm cryf o bedwar ymgeisydd profiadol wedi eu dewis i sefyll dros Plaid Cymru yn Nyffryn Ogwen yn Etholiadau Lleol Cyngor Gwynedd ar Fai'r 3ydd:

Mae'r pedwar yn meddu ar brofiad helaeth o wasanaeth cyhoeddus ac wedi cynrychioli'r ardal ar Gyngor Gwynedd ac ar gyrff arwyddocaol lleol, yn arbennig y Cynghorau Cymuned.

Yn ôl y Cynghorydd Dyfrig Jones: "Mae hi wedi bod yn fraint cynrychioli Ward Gerlan a Rachub dros y blynyddoedd diwethaf. 'Dwi wedi dysgu llawer ac wedi dod i adnabod y bobl leol a'r gweithgareddau bywiog sy'n cael eu trefnu yn yr ardal yn dda. Byddwn yn falch iawn o'r cyfle i gynrychioli pobl yr ardal unwaith eto wedi'r Etholiad ym mis Mai."

Mae'r Cynghorydd Jones yn aelod o Gyngor Cymuned Bethesda, yn Ysgrifennydd Cwmni Tabernacl, yn un o drefnwyr Gŵyl Pesda Roc, ac yn aelod o Awdurdod S4C. Mae'n briod a chanddo ddau o blant bach ac mae'n gweithio fel darlithydd ym Mhrifysgol Bangor.

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaid (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
7.00 tan 9.00

**Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi**

◆ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ◆

**Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth**

Yn dilyn llwyddiant mewn Is-Etholiad y llynedd, mae'r Cynghorydd Dafydd Meurig, sy'n byw yn Llanllechid, wedi mwynhau ei rôl newydd fel Cynghorydd Sir: "Mae wedi bod yn agoriad llygad cael dod yn rhan o'r Cyngor. Dwi'n falch iawn o'r cyfle i gynrychioli pobl Arllechwedd ac wedi profi llwyddiant wrth gychwyn prosiectau a dod â phobl leol ynghyd i weithredu yn ein cymuned."

Mae'r Cynghorydd Meurig yn Gadeirydd Partneriaeth Ogwen. Mae hefyd yn aelod o Gyngor Cymuned Llanllechid, ac mae'n rhedeg busnesau lleol o weithdai Felin Fawr ger Bethesda.

Mae'r Cynghorydd Ann Williams wedi ei geni a'i magu yn Nyffryn Ogwen ac mae'n ddiwyd iawn o fewn y gymuned leol. Mae'n aelod o Gyrrff Llywodraethol aelod o bwyllgorau rheoli Neuadd Ogwen, Canolfan Cefnfaes, Y Caban a Balchder Bro Ogwen. Mae hefyd yn aelod o Bartneriaeth Ogwen a Phwyllgor Llywio Lôn Las Ogwen.

"Dwi wrth fy modd yng nghanol prysurdeb fy ward ac yn falch o gyfrannu at fwrllwm Dyffryn Ogwen", meddai, "Dwi'n cael boddhad garw o ymwneud â phobl, ac yn ei themlo'n fraint fawr cael bod yn rhan o gymaint o gymdeithasau a sefydliadau i geisio cynnig cymorth i bobl leol."

Mae'r Cynghorydd Dafydd Owen yn ymgeisio yn Ward Tregarth a Mynydd Llandygai. Bu'n aelod o Gyngor Cymuned Llandygai ers 25 mlynedd. Mae'n aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfan Tregarth, Partneriaeth Ogwen, a Balchder Bro ac yn cynrychioli'r Dyffryn ar Brosiect Bangor. Y mae'n un o Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Tregarth, ac yn weithgar gyda Llais Ogwan.

"Mae'n anrhydedd cael fy newis i sefyll dros Plaid Cymru," meddai Dafydd Owen. "Dwi'n edrych ymlaen yn arw at yr ymgyrchu ac yn bwriadu gweld nifer fawr o'r etholwyr yn y dyfodol agos. 'Dwi'n addo gwneud fy ngorau drostynt ac yn gobeithio y caf y cyfle drachefn i'w cynrychioli ar Gyngor Gwynedd."

NEUADD OGWEN
BETHESDA

GYRFA CHWIST

24 Ebrill

8, 22, 29 Mai

am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr